**Rhif: WG52332**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren

Datblygu'r Diwydiant Pren yng Nghymru

Mehefin 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd / This document is also available in Welsh
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 978-1-80633-143-7 ISBN Digidol

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'n hymgynghoriad ar y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn ar 22 Ionawr 2025. Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad a manylion y camau nesaf ar gyfer y strategaeth arfaethedig hefyd wedi cael eu darparu.

## Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran Tirweddau, Natur a Choedwigaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: Pren.Timber@gov.wales

## Copïau Ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Linc i'r dogfennau ymgynghori: Y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren | LLYW.CYMRU

## Cynnwys


Cynnwys ... 3
Cyflwyniad ... 4
Methodoleg ... 5
Demograffeg ... 6
Blaenoriaeth 1: Cynyddu cyflenwad pren ... 7
Blaenoriaeth 2: Cynyddu cydnerthedd yn ein coedwigoedd ... 16
Blaenoriaeth 3: Effeithlonrwydd adnoddau ac economi gylchol ... 22
Blaenoriaeth 4: Meithrin hyder yn y galw ... 28
Blaenoriaeth 5: Datblygu capasiti'r sector ... 33
Blaenoriaeth 6: Yn seiliedig ar newid ymddygiad ... 44
Yr Iaith Gymraeg ... 52
Sylwadau Pellach ... 55
Adborth gweminarau ... 59
Prif ystyriaethau ac argymhellion ... 60
Y Camau Nesaf ... 65
Atodiad 1: Ffurflen Ymateb i’r Ymgynghoriad ... 66

# Cyflwyniad

## Cefndir a chyd-destun

1.1 Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu strategaeth ddiwydiannol sy'n seiliedig ar bren, datblygodd swyddogion sy'n gweithio ar draws Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth Gweithgor Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren, gyfres o gynigion i'w cyflwyno i'r ymgynghoriad. Roedd y cynigion hyn yn ceisio cyflawni yn erbyn y blaenoriaethau a nodir yn Coetiroedd i Gymru[1].

1.2 Lluniwyd y strategaeth yng nghyd-destun nodi cynhyrchiant coedwigaeth fel maes y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio arno[2], yr angen i sicrhau cyflenwad pren yn y dyfodol yn wyneb y galw cynyddol yn fyd-eang,[3] cyfleoedd ar gyfer swyddi a thwf gwyrdd, a photensial pren i'w ddefnyddio mewn adeiladu tai cynaliadwy.

1.3 Drwy gyfnod datblygu'r strategaeth, daeth y chwe blaenoriaeth ganlynol i Gymru i'r amlwg:

- Cynyddu cyflenwad pren
- Cynyddu cydnerthedd yn ein coedwigoedd
- Effeithlonrwydd adnoddau ac economi gylchol
- Meithrin hyder yn y galw
- Datblygu capasiti'r sector
- Yn seiliedig ar newid ymddygiad

1.4 Ar 22 Ionawr 2025, agorodd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ymgynghoriad 12 wythnos[4] ar y blaenoriaethau a'r cynigion ar gyfer y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gofyn am adborth yn bennaf drwy gwestiynau agored ar bob un o'r blaenoriaethau. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 16 Ebrill 2025.

1.5 Penodwyd Strategic Research and Insight Ltd (SRI) i ddadansoddi ac adrodd yn annibynnol ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

---

[1] Coetiroedd i Gymru: strategaeth
[2] Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024
[3] World Bank Group, World Bank Group Forest Action Plan FY16–20, April 2016;
[4] Ymgynghoriad ar y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren

# Methodoleg

## Yr ymatebion i'r ymgynghoriad

2.1 Roedd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein yn cynnwys 18 cwestiwn penagored am wahanol agweddau ar y cynigion, yn ogystal â chwestiwn 'sylwadau pellach' ar y diwedd i gofnodi unrhyw ystyriaethau ychwanegol a allai fod gan ymatebwyr. Roedd dau gwestiwn 'ie/na' caeedig hefyd.

2.2 Gellid llenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad gan unigolion yn ogystal ag ar ran sefydliadau. Derbyniwyd 85 o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein.

2.3 Yn ogystal, derbyniwyd 35 o gyflwyniadau drwy e-bost a oedd yn dilyn fformat y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad (gyda a heb gyflwyniadau/rhagarweiniadau) ac fe'u cyfunwyd â'r ymatebion ar-lein i'w dadansoddi.

2.4 Nid oedd wyth ymateb yn dilyn fformat yr holiadur ymgynghori, er bod y cyflwyniadau'n ymdrin â phynciau a godwyd yn y ddogfen ymgynghori. Roedd y rhain naill ai ar ffurf sylwadau penodol, neu gyflwyniadau hir a thechnegol yn codi rhai pwyntiau a oedd yn unigryw neu'n benodol iawn. O ganlyniad, mae'r cyflwyniadau hyn yn cael eu dadansoddi ar wahân i ymatebion ar y ffurflenni ymateb cyfun.

2.5 Cafwyd cyfanswm o 128 o ymatebion unigol i'r ymgynghoriad. Mae'r holl ymatebion penagored a ddaeth i law, ni waeth beth oedd fformat y cyflwyniad, wedi cael eu darllen a'u dosbarthu'n thematig gan ddefnyddio ffrâm godio safonol. Crynhoir y prif themâu a godwyd ym mhenodau canlynol yr adroddiad.

2.6 Yn gyffredinol, mynegodd ymatebwyr bwyntiau i Lywodraeth Cymru eu hystyried wrth weithredu blaenoriaethau, yn hytrach na mynegi gwrthwynebiad llwyr i'r cynigion. Amlinellir meysydd penodol lle ceir anghytundeb neu wrthwynebiad ym mhrif gorff yr adroddiad.

## Fformat yr adroddiad

2.7 Trefnir yr adroddiad yn ôl y cwestiynau yn y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ac fe'u crynhoir yn ôl y themâu allweddol a gododd o'r ymatebion o dan bob cwestiwn.

2.8 Er bod fframiau codio yn dangos pryderon allweddol ymatebwyr a chryfder y teimlad am faterion penodol, nid nifer yr ymatebion yw'r unig ffactor i'w ystyried gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Ni ellir defnyddio amlder themâu allweddol i ddehongli cydbwysedd barn yn yr un modd ag y gall cwestiwn caeedig, yn enwedig gan y derbyniwyd nifer o ymatebion gan unigolion o'r un sefydliadau, neu unigolion a gyflwynodd ymatebion tebyg ar ran eu sefydliad ac eto fel ymateb personol. O'r herwydd, trafodir themâu allweddol yr ymatebion yn draethiadol, ond heb eu meintioli.

2.9 Mae'r crynodeb wedi'i drefnu'n fras yn ôl y themâu sy'n codi amlaf. Mae dyfyniadau gan ymatebwyr yn dangos ac yn ymhelaethu ar themâu allweddol, ond nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli'r holl sylwadau.

## Demograffeg

3.1 Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cwestiynau yn gofyn am enw, manylion cyswllt, a'r sefydliad yr oedd yr ymatebydd yn perthyn iddo, os oedd hynny'n berthnasol. O enwau'r sefydliadau, cynhyrchodd SRI gategorïau sector eang a manylach a amlinellir yn y tablau isod yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am y sefydliadau. Cynhyrchwyd y categorïau ar y cyd â Llywodraeth Cymru i nodi mor gywir â phosibl pa ran o'r sector pren roeddent yn ei chynrychioli neu'n delio â hi. Pan fo sefydliadau'n gweithredu ar draws sectorau, roedd eu sector yn cael ei bennu gan y sector roeddent yn gweithredu ynddo'n bennaf. Lle'r oedd ganddynt nifer o weithrediadau sylfaenol, nodir y rhain yn y categori 'sawl sector'.

3.2 Nid oedd pob ymateb gan unigolion a oedd yn nodi enw eu sefydliad yn ymateb ar ran y sefydliad hwnnw. Pan nododd ymatebwyr yn glir fod eu hymateb ar ran eu sefydliad, neu pan nodwyd hyn mewn gohebiaeth â Llywodraeth Cymru, dangosir hyn yn Nhabl 3. Pan nad oedd yr ymatebion wedi darparu'r wybodaeth hon, cawsant eu dosbarthu fel rhai gan 'unigolion/heb nodi',

3.3 Mewn rhai achosion, nododd ymatebwyr yr un themâu ar draws eu hymatebion i holl gwestiynau'r ymgynghoriad neu ailadrodd eu hatebion. Pan fo hynny'n wir, trafodir y themâu hyn yn fwyaf manwl yn y cwestiynau y mae'r atebion yn fwyaf perthnasol iddynt.

3.4 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a fyddent yn hoffi i'w hadborth aros yn ddienw. Drwy gydol yr adroddiad, lle nododd ymatebwyr sefydliadol nad ydynt am gadw eu hymateb yn ddienw, mae dyfyniadau'n cael eu priodoli. Os oeddent yn dymuno aros yn ddienw, nodir sector yr ymatebydd neu eu statws fel unigolyn ochr yn ochr â'u dyfyniad.

**Tabl 1: Ymateb fesul sector (eang)**

| Sector (eang) | Cyfrif | % |
|---|---|---|
| Ymateb unigol | 33 | 26% |
| Sector preifat | 55 | 43% |
| Sector cyhoeddus | 7 | 5% |
| Sefydliad aelodaeth / corff cynrychioliadol | 20 | 16% |
| Trydydd sector | 13 | 10% |
| **Cyfanswm** | 128 | 100% |

**Tabl 3: Ymateb fesul sefydliad**

| Math o ymateb | Cyfrif | % |
|---|---|---|
| Ymateb sefydliadol | 46 | 36% |
| Unigol/heb nodi | 82 | 64% |
| **Cyfanswm** | 128 | 100% |

**Tabl 2: Ymateb fesul sector (manwl)**

| Sector (manwl) | Cyfrif | % |
|---|---|---|
| Rheoli coetiroedd | 25 | 26% |
| Gweithgynhyrchu a datblygu cynnyrch | 12 | 13% |
| Corff Anllywodraethol Amgylcheddol | 10 | 11% |
| Sgiliau | 9 | 9% |
| Sectorau lluosog | 9 | 9% |
| Marchnadoedd | 7 | 7% |
| Melinwyr a chynhyrchwyr | 7 | 7% |
| Ailgylchu/biodanwydd | 6 | 6% |
| Amaeth | 3 | 3% |
| Cynaeafu a chludo | 2 | 2% |
| Meithrinfeydd coed | 1 | 1% |
| Arall | 4 | 4% |
| **Pob sefydliad** | 95 | 100% |

## Blaenoriaeth 1: Cynyddu cyflenwad pren

### Sut gellir cynyddu'r adnodd coedwigoedd cynaliadwy sy'n cael ei dyfu yng Nghymru er mwyn sicrhau bod mwy o bren a ffibr pren ar gael ar gyfer y dyfodol?

#### Ymatebion ar ffurflenni'r ymgynghoriad

4.1 Pan ofynnwyd sut y gellid cynyddu'r adnodd coedwigoedd cynaliadwy a dyfir yng Nghymru, dewisodd llawer o ymatebwyr roi eu hymatebion mwyaf manwl. Roedd y themâu a godwyd yn yr ymatebion hyn yn ymwneud â chwestiynau yn y ffurflen ymgynghori, ac fe'u hailadroddwyd ynddynt.

4.2 Fodd bynnag, roedd y themâu allweddol a oedd yn ymwneud â chynyddu adnoddau coedwigoedd cynaliadwy yn cynnwys y canlynol:

**Gwella'r gwaith o reoli coetiroedd presennol**

4.3 Roedd yr ymatebion mwyaf cyffredin a oedd yn ymwneud â chynyddu'r adnodd coedwigoedd cynaliadwy i sicrhau bod mwy o bren a ffibr pren ar gael yn y dyfodol yn ymwneud â gwella'r gwaith o reoli a chynnal a chadw coetiroedd presennol.

4.4 Roedd rhai o'r sylwadau hyn yn ymwneud â rheoli Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru (WGWE). Yn benodol, teimlai rhai fod arferion rheoli presennol wedi gostwng ansawdd neu argaeledd pren o Gymru, gydag enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Oedi o ran ailstocio ar ôl cwympo coed, gan arwain at stocio gyda rhywogaethau anfwriadol
- Coed llydanddail ddim yn cael eu plannu'n ddigon dwys
- Teneuo annigonol
- Diffyg rheolaeth ar redyn, mieri neu brysgwydd

4.5 Cyfeiriodd rhai at hyn fel rheswm pam bod y cyflenwad pren wedi bod yn is na'r lefelau a ragwelwyd, ac a gafodd effaith negyddol ar gadwyn gyflenwi'r sector. Teimlai'r ymatebwyr hyn fod angen mynd i'r afael â threfn reoli WGWE er mwyn cynyddu allbwn a rhoi hyder mewn cyfeintiau parhaus wrth symud ymlaen.

4.6 Rhoddodd eraill adborth ehangach ar reoli coetiroedd, naill ai'n benodol am goetir preifat neu heb nodi at ble roedd yr awgrymiadau'n cyfeirio. Roedd hyn yn cynnwys awgrym o welliant o ran cyflwyno cynlluniau rheoli fel rhan o'r broses trwydded cwympo coed a weinyddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

> “Byddem hefyd yn cefnogi gwelliannau i broses bresennol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cyflwyno cynlluniau rheoli fel rhan o'r broses trwyddedu cwympo coed, er enghraifft galluogi templedi cynlluniau rheoli eraill i gael eu defnyddio os ydynt yn bodloni rhai gwiriadau UKFS (Safon Coedwigaeth y DU), gan y gallai hyn gymell ystod ehangach o weithredwyr i gyflwyno rhaglenni cwympo ac ailstocio tymor hwy a mwy strategol/cyfannol. (Mae'r broses bresennol yn faich gweinyddol - yn ei hanfod, mae'n ei gwneud yn ofynnol i reolwyr ailysgrifennu cynlluniau rheoli presennol mewn templed gwahanol - ac o'r herwydd, rydym yn credu mai ychydig iawn o weithredwyr coedwigaeth, os o gwbl, sy'n ymgysylltu ar hyn o bryd.)” (Y trydydd sector - rheoli coetiroedd)

4.7 Tynnodd eraill sylw at bwysigrwydd rheoli mwy ar wiwerod a cheirw wrth gynnal a chadw coetiroedd presennol, yn enwedig mewn perthynas â chynnal ansawdd masnachol rhywogaethau llydanddail.

4.8 Yn yr un modd ag mewn rhannau eraill o'r ymgynghoriad, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at ddefnyddio potensial gweithredwyr bach (e.e. melinwyr/proseswyr/perchnogion coetiroedd) i wella'r gwaith o reoli ac ehangu coedwigoedd.

> Mae melinau llifio a phroseswyr bach yn bodoli ledled Cymru ond yn bodoli o dan y radar gwleidyddol. Maent fel arfer yn ychwanegu gwerth, yn creu llawer mwy o swyddi/log na'r proseswyr mwy ac yn gallu helpu i gysylltu coed â gwerth yn ein cymunedau gwledig, gan helpu i ddatblygu diwylliant coed. Mae'r proseswyr hyn bron yn gyfan gwbl wedi'u heithrio rhag cael gafael ar bren gan WGWE ac felly'n cael pren o'r sector preifat a choetiroedd ffermydd. Gyda rhywfaint o gefnogaeth, gallai'r sector hwn o'r diwydiant pren nad yw'n cael ei werthfawrogi'n ddigonol ddod yn llysgenhadon allweddol ar gyfer ehangu coetiroedd ffermydd a dylai Llywodraeth Cymru ei feithrin yn yr un modd ag y mae Llywodraeth yr Alban yn cefnogi Cymdeithas Melinwyr Pren Caled yr Alban." (Sefydliad aelodaeth / corff cynrychioliadol - sectorau lluosog)

**Cynyddu coedwigo, plannu ac ailstocio**

4.9 Roedd galwadau i blannu mwy ac ehangu coedwigaeth ymysg yr ymatebion mwyaf cyffredin. Cyfeiriodd ymatebwyr at yr angen i hyrwyddo coedwigoedd cynaliadwy sy'n cynhyrchu pren o ansawdd uchel at ddefnydd masnachol, sy'n golygu bod angen cymysgedd o rywogaethau sy'n ystyriol o amodau'r hinsawdd yn y dyfodol. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys cais i sicrhau bod coed yn cael eu hailstocio'n amserol ar ôl cwympo coed, gydag ymatebwyr yn aml yn nodi y dylai ailblannu gynnwys rhywogaethau amrywiol a chynaliadwy.

4.10 Awgrymodd rhai gynyddu cyfran y conwydd (gan gynnwys rhywogaethau conwydd gwell) wrth ailstocio, yn unol â Safon Coedwigaeth y DU (UKFS). Roedd y sylwebyddion hyn yn tueddu i deimlo bod gormod o bwyslais ar hyn o bryd ar goed llydanddail, er enghraifft drwy gynlluniau grantiau ffafriol presennol, a bod hyn wedi arwain at golli coed conwydd cynhyrchiol.

> 'Mae'n rhaid i'r rhaglen goedwigo hon fod gynnwys conwydd i raddau helaeth, gan mai pren conwydd yw porthiant y Diwydiant Coed, ac mae'r strategaeth hon yn ceisio hyrwyddo hynny.' (Y sector preifat - rheoli coetiroedd a'r sector preifat - ailgylchu/biodanwydd)

4.11 Ar y llaw arall, awgrymodd nifer llai fod angen cynyddu'r coed llydanddail, gydag un sylw'n rhybuddio bod angen mwy o reolaeth ar y rhain i gynhyrchu pren caled o ansawdd, gan gynnwys rheoli gwiwerod, ac am gost uwch i goetir sefydledig o'i gymharu â chonwydd.

4.12 Cafwyd rhai awgrymiadau y byddai angen mwy o ymchwil a datblygu i fridio coed, geneteg a threialon tarddiad i amrywiaeth o rywogaethau cynhyrchiol yn ogystal â sbriwsen Sitka i gynyddu gallu rhywogaethau i wrthsefyll hinsoddau a phathogenau/plâu yn y dyfodol, wedi'i gydbwyso â chynhyrchiant cnydau.

**Defnyddio targedau**

4.13 Ymysg yr awgrymiadau roedd cyflwyno neu orfodi targedau'n well ynghylch plannu coed a chymysgedd rhywogaethau (er enghraifft, argymhelliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd ar blannu coed). Fodd bynnag, teimlai rhai fod targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer coedwigo yn wynebu rhwystrau, eu bod yn afrealistig, neu'n tynnu sylw at y ffaith bod plannu yn dirywio. Mewn nifer fach o achosion, awgrymwyd y dylid gwneud Cyfoeth Naturiol Cymru yn atebol am dargedau ar gyfer creu coetiroedd newydd er mwyn sbarduno cynnydd.

> Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae cyflenwadau pren Cyfoeth Naturiol Cymru i'r farchnad wedi bod yn anghyson ac yn llawer is na'r hyn a ragwelwyd. Mae hyn wedi arwain at leihau hyder Cyfoeth Naturiol Cymru yn y sector a'r posibilrwydd o golli buddsoddiad mewn prosesu yn y dyfodol. Mae cyflenwadau pren cyson a chynyddol i'r farchnad yn y dyfodol yn hanfodol i hyfywedd y sector prosesu coed yng Nghymru yn y dyfodol. Felly, mae'n hanfodol bod y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren yn nodi cyfeiriad clir ar gyfer rheoli Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru (WGWE) yn y dyfodol i gynyddu cynhyrchiant pren blynyddol, gan gynhyrchu incwm y mae mawr ei angen, yn ogystal â sicrhau manteision amgylcheddol a chymdeithasol i Gymru. Byddem yn awgrymu bod rhai dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru:
>
> - Gosod targedau creu coetiroedd (gydag elfen gynhyrchiol) i sicrhau bod cymhelliant i greu coetiroedd.
> - Cytuno â'r sector prosesu coed ar gyfaint targed blynyddol a gynigir i'r farchnad i feithrin mwy o hyder yn y sector prosesu pren a darparu parhad i'r gadwyn gyflenwi.
> - Ailstocio i'w gwblhau o fewn 3 blynedd i gynaeafu er mwyn lleihau oedi mewn cyflenwadau pren yn y dyfodol.
> - Defnyddio deunydd plannu gwell lle bo hynny'n bosibl i sicrhau'r cynhyrchiant gorau posibl.”
>
> (Sefydliad aelodaeth / corff cynrychioliadol - sectorau lluosog)

**Blaenoriaethu defnydd tir**

4.14 Er mwyn cynyddu coedwigo, cafwyd awgrymiadau i flaenoriaethu tir anghynhyrchiol a thir diraddiedig. Er mwyn hwyluso hyn, roedd sylwadau'n tynnu sylw at yr angen posibl i archwilio tir yng Nghymru i glustnodi ardaloedd sy'n addas ar gyfer creu coetiroedd, creu hierarchaeth o ddefnydd tir neu fframwaith defnydd tir i fesur y swyddogaeth fwyaf addas ar gyfer tir, a phennu blaenoriaethau defnydd tir. Roedd y tir a ystyriwyd yn fwyaf addas ar gyfer coedwigo yn amrywio, ond roedd yn cynnwys awgrymiadau am dir pori defaid, ffermydd mynydd, ardaloedd o redyn, Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol (PAW) sydd wedi cael eu rheoli'n wael, a chynefinoedd blaenoriaeth mewn cyflwr ecolegol gwael nad ydynt yn cefnogi bioamrywiaeth. Un awgrym oedd y dylid plannu ar sail dull gweithredu 'Lle Cywir yn Gyntaf', h.y. plannu mewn ardaloedd ar wahân i ardaloedd lle mae'r defnydd tir sydd eisoes yn bodoli yn werth cadwraeth uchel, gwerth carbon neu'n werth cymunedol, neu'n dir fferm cynhyrchiol iawn.

4.15 I hysbysu'r fframwaith hwn, teimlai rhai ei bod yn bwysig ymrwymo i ymchwil i fodelu data gan integreiddio addasrwydd tir, bioamrywiaeth a photensial atafaelu carbon.

**Ymgysylltu â ffermwyr**

4.16 Serch hynny, teimlai rhai fod cystadleuaeth defnydd tir gyda ffermwyr yn rhwystr i dargedau coedwigo, ac roeddent yn poeni am yr effeithiau negyddol ar ffermwyr pe bai Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru yn cael ei hehangu. Yn benodol, tynnodd rhai sylw at y ffaith bod llawer o ffermwyr yn amheus o goedwigaeth, mewn rhai achosion oherwydd cyfathrebu gwael ynghylch y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Awgrymodd yr ymatebwyr hyn y dylid gwella'r cyfathrebu â ffermwyr i wella ymwybyddiaeth o greu coetiroedd fel cnwd masnachol posibl, er y tynnwyd sylw hefyd at y ffaith mai ychydig o brofiad sydd gan ffermwyr yn aml o dyfu coed neu reoli coetiroedd, ac na allant o reidrwydd fforddio aros degawdau am incwm coedwigoedd.

> “Byddai sefydlu microfusnesau neu hybiau pren, er enghraifft, yn ategu gweithgareddau ffermio fel math o arallgyfeirio ac yn sicrhau cyflogaeth drwy gydol y flwyddyn a thrwy hynny ddiogelu swyddi yn ein cymunedau a'r 'draen ymennydd' i ardaloedd trefol [...] Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy i ddeall a mynd i'r afael â'r rhwystrau presennol i blannu coed ar ffermydd yng Nghymru, gan gynnwys y rhesymeg economaidd wan dros y newid parhaol hwn mewn defnydd tir. Yn syml, mae ffermio yn fusnes sy'n dibynnu ar werthu amrywiaeth o nwyddau amaethyddol a gynhyrchir o'r tir i gael yr incwm sydd ei angen i gynnal bywoliaeth a buddsoddi ar gyfer y dyfodol. Mae angen cydnabod na all llawer o ffermwyr fforddio aros degawdau i gnwd o bren aeddfedu ar gyfer eu hincwm; ac ni all y llu o fusnesau lleol ychwaith ddibynnu ar ffermwyr am eu bywoliaeth. Mae effeithiau hefyd ar werthoedd tir a all godi o ganlyniad i'r newid parhaol hwn mewn defnydd tir” (Sefydliad aelodaeth / corff cynrychioliadol - amaethyddiaeth)

**Darparu cymhellion**

4.17 Er mwyn sicrhau'r cynnydd mewn adnoddau coedwigoedd cynaliadwy, gwnaeth ymatebwyr nifer o awgrymiadau. Roedd y rhain yn cynnwys defnyddio cymhellion y llywodraeth, fel y rheini a oedd wedi'u hanelu at ffermwyr i gynyddu coedwigo. Awgrymwyd cysylltu derbyn grant â'r gofyniad am ardystiad (e.e. ardystiad Rheoli Coedwigoedd yn Gynaliadwy) er mwyn gwella'r gwaith o reoli coetiroedd newydd yn ogystal â'u plannu. Cafwyd awgrymiadau eraill ar gyfer grantiau a oedd yn canolbwyntio ar wella'r gwaith o reoli coedwigoedd, fel ar gyfer seilwaith, peirianneg neu beiriannau i gael mynediad at bren - yn enwedig ar dir anodd.

> Dewis arall fyddai cynnig grant mwy i ffermwyr ar gyfer coedwigo gyda choed conwydd cynhyrchiol nad oes angen eu hailblannu ar ddiwedd ei gylchdro cychwynnol. Byddai hyn yn rhoi hyblygrwydd i ffermwyr a gallai gynyddu cyfranogiad. Ni fyddent yn gallu cael ardystiad os nad oes gofyniad i ailblannu, ond mae'n dal yn well na dim. (Sector preifat - sgiliau)

**Lleihau'r baich rheoleiddio**

4.18 Awgrymodd eraill y gellid lleihau 'biwrocratiaeth' o amgylch plannu coed, gyda rhai'n credu bod y prosesau cymeradwyo ar gyfer creu coetiroedd yn araf oherwydd 'baich rheoleiddio' cyffredinol, tensiwn â chyfraith bywyd gwyllt a meysydd blaenoriaeth, a gwrthwynebiad cyhoeddus, yn ogystal â faint o waith papur sydd ei angen.

> "Dileu'r rhwystrau rheoleiddiol presennol i gynlluniau plannu coed a'r newidiadau diweddar i'r cynllun cais am drwydded cwympo coed - dyma'r rhwystr mwyaf ar hyn o bryd, nad yw'n cael ei drafod, sy'n atal rheoli coetiroedd yn weithredol a chreu coetiroedd newydd (yn enwedig conwydd masnachol) yng Nghymru." (Unigolyn)

4.19 Cyfeiriodd rhai hefyd at y defnydd o adfywio naturiol fel ffactor oedi wrth ailstocio a lleihau hyfywedd coetiroedd masnachol, yn enwedig ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru.

> "Mae angen adolygu ar frys y polisi o dderbyn adfywio naturiol ar safleoedd wedi'u cynaeafu. Mae'n adnodd defnyddiol, ond mae angen rheoli adferiad naturiol yn ofalus ac yn ddwys gydag ymyriadau amserol ac nid yw'n fesur sy'n arbed costau. Gall adfywio sbriws arwain at ddwysedd stocio rhy uchel neu anwastad sy'n golygu bod y cnwd sy'n deillio o hynny o ansawdd gwael iawn. Mae adfywiad llydanddail yn ysbeidiol, ac mae cannoedd o hectarau o goedwig a arferai fod yn gynhyrchiol ar safleoedd PAWS yn cael eu colli i redyn, mieri neu brysgwydd, na all adfywio naturiol gystadlu drwyddynt. Ni fydd yr ardaloedd hyn byth yn goetir eto." (Y sector preifat - rheoli coetiroedd)

**Prinder gweithlu a bylchau sgiliau**

4.20 Er mwyn hwyluso twf cynaliadwy mewn coedwigoedd, nododd ymatebwyr brinder gweithlu a bylchau sgiliau yr oedd angen mynd i'r afael â nhw drwy fuddsoddiad yn y sector cyhoeddus ac addysg/hyrwyddo ehangach yn y sector. Meysydd ffocws penodol gan gynnwys y canlynol:

- Gweithrediadau coedwigaeth (gan gynnwys hyfforddiant ar deneuo a chynaeafu mecanyddol a choedwriaeth arbenigol)
- Melinau llifio a phrosesu
- Ecoleg
- Coedwriaeth coed caled a rheoli rhywogaethau
- Prinder gweithwyr iau yn ymuno â'r sector a gweithlu sy'n heneiddio

**Ffactorau'r farchnad**

4.21 Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai'r galw cynyddol am bren yn annog datblygu adnoddau ymhellach. Fodd bynnag, nodwyd hefyd y byddai hyn yn achosi cynnydd mewn mewnforion yn y tymor byr oherwydd amseroedd arwain plannu ar gyfer pren.

**Sylwadau eraill**

4.22 Thema fwy cyffredinol a godwyd oedd y byddai angen ymrwymiad hirdymor gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyflawni'r nod hwn.

4.23 Mae'n werth nodi bod pedwar ymatebydd yn anghytuno ag iaith neu derminoleg y cwestiwn a gwybodaeth ategol yr ymgynghoriad, neu'n ei chael yn anodd ei dehongli.

> "Diffiniwch gynaliadwyedd yn y cyd-destun hwn - swyddi, y gallu i briddoedd dyfu coed i gynhyrchu pren, ac ati (Unigolyn)
>
> 'Mae'r ddogfen ymgynghori'n trin pryderon am hirhoedledd cynhyrchion adeiladu pren fel 'canfyddiad' a 'rhwystr' i'w oresgyn drwy ddod o hyd i

ddigon o dystiolaeth i ennyn 'hyder' - dyma'r dull anghywir ac mae'n awgrymu'n gryf y daethpwyd i gasgliad a bennwyd ymlaen llaw.' (Cymdeithas Cynnyrch Mwynol Cymru)

Mae 'newyn coed' a chyflenwad byd-eang cyfyngedig (a phrisiau uwch) wedi cael eu rhagweld sawl gwaith ers dros gan mlynedd. Nid oes unrhyw gyfyngiad difrifol wedi codi. Mewn gwirionedd, mae prisiau pren yn is nag y buont yn y gorffennol. (Gweler mynegeion prisiau pren Forest Research.) Mae'n amlwg y dylem fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd gennym - ond dylai Llywodraeth Cymru feddwl yn ofalus cyn neilltuo adnoddau sylweddol i gynyddu'r cyflenwad pren yng Nghymru." (Unigolyn)

## Sut gellir cynyddu cyfeintiau ffeibr pren a phren o Gymru sy'n dod i'r farchnad?

### Ymatebion ar ffurflenni'r ymgynghoriad

**Gwell gwaith cynnal a chadw/rheoli**

4.24 Roedd yr awgrymiadau mwyaf cyffredin ynghylch cynyddu cyfeintiau pren a ffibr pren o Gymru unwaith eto yn ymwneud â rheoli coetiroedd. Roedd y sylwadau'n awgrymu nad oedd coetiroedd llydanddail yng Nghymru yn cael eu rheoli i raddau helaeth; bod coedwigoedd bach a choetiroedd fferm yn aml yn cael eu hesgeuluso ac y gallent gyfrannu at y cyflenwad pren pe baent yn cael eu rheoli; a bod clystyrau goraeddfed yn bodoli, yn enwedig ar WGWE, gyda mwy o bren yn tyfu bob blwyddyn na'r hyn sy'n cael ei gynaeafu a thargedau'n cael eu methu.

4.25 Er mwyn gwella'r gwaith rheoli, roedd rhai awgrymiadau'n canolbwyntio eto ar bwysigrwydd teneuo, yn enwedig y teneuo cyntaf, a chylchau teneuo byrrach i wella ansawdd pren, cadernid coedwigoedd, a chyflenwad y farchnad. Roedd rhai yn dadlau dros Goedwigaeth Gorchudd Di-dor (CCF) yn hytrach na modelau llwyrgwympo traddodiadol, a oedd, yn eu barn nhw, yn gallu diraddio pridd, niweidio bioamrywiaeth, a lleihau'r gallu i wrthsefyll yr hinsawdd.

"Annog cyflenwad o bren o ansawdd da i'r farchnad drwy roi cymhorthdal i dechnegau CCF a LISS cynaliadwy mewn coetiroedd preifat." (Y sector cyhoeddus - rheoli coetiroedd)

"Dylai fod yn bosibl cynyddu cyfeintiau pren a choed sy'n mynd i mewn i'r gadwyn gyflenwi drwy reoli adnoddau coetir presennol yn ddoeth drwy gyfundrefnau fel CCF" (Sefydliad aelodaeth / corff cynrychioliadol - rheoli coetiroedd)

4.26 Fodd bynnag, roedd nifer fach yn dweud bod diffyg capasiti ar hyn o bryd i wneud gwaith teneuo, ac yn awgrymu eu bod hefyd yn cael eu llesteirio gan broses bresennol y drwydded cwympo coed.

"Gall teneuo gwael ddinistrio potensial gweddill y cnwd, drwy ei wneud yn fwy agored i wynt, neu drwy docio coed cnwd terfynol. Mae angen i broses y drwydded cwympo coed fod yn drylwyr, ond gellid ei symleiddio drwy ddefnyddio mwy ar Gynlluniau Tymor Hir yn y sector preifat neu drwy roi Trwyddedau Cwympo Coed am 5 mlynedd ar gyfer llwyrgwympo a 10 mlynedd ar gyfer teneuo. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd difrod gwynt yn dechrau digwydd. Mae caniatáu cyfnod trwydded o ddim ond 2

flynedd ar gyfer llwyrgwympo a 5 mlynedd ar gyfer teneuo, heb opsiwn i estyn nac adnewyddu, yn rhoi llawer iawn o waith diangen i'r Rheoleiddwyr sy'n cynhyrchu trwyddedau newydd ar gyfer parseli sydd wedi cael eu trwyddedu o'r blaen ond lle mae'r drwydded wedi dod i ben” (Y sector preifat - rheoli coetiroedd)

'Gan gydnabod y cyfyngiadau presennol o ran sgiliau ac adnoddau cyllido rheolwyr coedwigoedd yn y sector cyhoeddus, dylid chwilio am fodelau gweithredu eraill i gynnwys buddsoddiad partneriaeth yn y sector a gweithio drwy gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer modelau buddsoddi cydfuddiannol a mentrau ar y cyd.' (Unigolyn)

**Rhwystrau rheoleiddiol**

4.27 Nodwyd nifer o rwystrau eraill i blannu coed a rheoli coetiroedd, pob un gan nifer fach o ymatebwyr.

- Glynu'n gaeth at gynlluniau coedwigoedd ac yna Cyfoeth Naturiol Cymru yn gohirio dod â pharseli pren ymlaen i farchnadoedd
- Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) yn achosi baich ac oedi
- Diffyg rhwyddineb o ran cyflwyno cynlluniau i Cyfoeth Naturiol Cymru, fel bod rheolaeth hirdymor yn haws i'w greu a'i gyflwyno (e.e. diffyg integreiddio â Sylva myForest)

**Grantiau a chymhellion i wella'r cyflenwad**

4.28 Fel yn yr ymatebion i'r cwestiwn blaenorol, cyflwynwyd nifer o grantiau neu gymhellion gan y llywodraeth gan gynnwys grantiau rheoli coedwigoedd, grantiau ar gyfer cynlluniau rheoli, grantiau ar gyfer mynediad a gwella logisteg a thrafnidiaeth, ac ar gyfer datblygu'r gweithlu mewn sectorau penodol fel melino. Unwaith eto, awgrymodd rhai y byddai angen ymrwymo unrhyw arian cyhoeddus yn y tymor hir.

> "Mae'n hanfodol bod y cyllid hwn yn cael ei ddiogelu rhag toriadau yn y dyfodol. I'r gwrthwyneb, roedd Llywodraeth yr Alban wedi lleihau ei chyllideb creu coetiroedd 40% yn ei chyllideb ar gyfer 2024/25, gan arwain at darged diwygiedig o ddim ond 10,000 hectar wedi'i blannu allan o nod o 18,000 hectar. Er bod 16% o'r gyllideb wedi cael ei hadfer ar gyfer 2025/26, dim ond ar gyfer creu 11,000 hectar y bydd yn cefnogi hyn, gan adael yr Alban 7,000 hectar yn brin o'i tharged gwreiddiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ei chyllideb coedwigaeth yn gyson, o £5.8 miliwn yn 2021/22 i £15.7 miliwn yn 2024/25, a rhagwelir cyllideb sefydlog ar gyfer 2025/26. Mae'r duedd gadarnhaol hon wedi bod yn galonogol i'r sector coedwigaeth. Fodd bynnag, byddai unrhyw ostyngiad yn y gyllideb hon, yn debyg i'r toriadau a welwyd yn yr Alban, yn debygol o arwain at lai o hyder yn y diwydiant a mwy o ddibyniaeth ar gynnyrch pren sy'n cael ei fewnforio." (Kronospan Limited)

**Gwella metrigau a data**

4.29 Tynnodd ymatebwyr eraill sylw hefyd at gyfyngiadau gyda data presennol i hysbysu anghenion cyflenwad pren.

> "Mae gan y data presennol sydd ar gael nifer o anghysondebau, yn enwedig mewn perthynas ag Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru (WGWE) e.e. Mae Rhagolygon Coed Meddal 25 Mlynedd Forest Research a gyhoeddwyd yn 2022 yn nodi y bydd cyfartaledd o 1,284,000$m^3$ ar gael bob blwyddyn rhwng 2022 a 2026. Fodd bynnag, mae cynllun marchnata a gwerthu pren Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer yr un cyfnod yn nodi 982,473$m^{3,}$ sy'n fwy na 300,000$m^3$ o wahaniaeth heb fawr o esboniad. Er mwyn gallu gwella argaeledd pren, mae angen data mwy cywir. Mae angen gwell dealltwriaeth arnom hefyd o ansawdd y data yng Nghronfa Ddata Is-adran Cyfoeth Naturiol Cymru (SCDB) a hefyd faint o sgwariau sampl y Rhestr Goedwigoedd Genedlaethol (NFI) sydd yng Nghymru sydd, yn eu tro, yn codi problemau gydag ansawdd data o'r NFI. (Sefydliad aelodaeth / corff cynrychioliadol - sectorau lluosog)

**Gwella mynediad i bren i weithredwyr bach**

4.30 Er mwyn gwella mynediad i weithredwyr bach, awgrymodd ymatebwyr y dylid ailsefydlu gwerthiant pren parseli bach o Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru i gefnogi melinwyr lleol a defnyddwyr ar raddfa fach, gan farchnata parseli pren o ansawdd uchel ac osgoi lotiau cymysg. Cafwyd awgrymiadau hefyd i ddatblygu 'iardiau gwerthu pren' lleol, gan alluogi ffermwyr a pherchnogion coetiroedd bach i gynnig pren i'w werthu'n uniongyrchol, a chaniatáu bidio agored i alluogi busnesau llai i gystadlu, yn ogystal ag awgrym i greu masnachwr pren Cyfoeth Naturiol Cymru ar raddfa fach i helpu gyda gwerthiant, trafnidiaeth a logisteg i brynwyr bach.

> “Nid oes gan ffermwyr yng Nghymru unrhyw ffordd o gael mynediad at farchnadoedd coed lleol ac nid oes llawer o gymhelliant iddynt dyfu pren amrywiol o ansawdd uchel ar y fferm. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cymell darparu 'iardiau gwerthu pren' dros dro, lle gwahoddir prynwyr pren i fidio am bren a gyflwynir gan ffermwyr a thirfeddianwyr yn yr ardal. Mae hyn yn debygol o ddilyn llwyddiant ysgubol iardiau gwerthu coed yng Ngwlad Belg a Ffrainc, sy'n cael eu rhedeg mewn partneriaeth rhwng mentrau cydweithredol coetir cymunedol a menter coedwigaeth y wladwriaeth." (Y sector preifat - rheoli coetiroedd / Y trydydd sector - chyrff anllywodraethol amgylcheddol)

**Ymgorffori bio-olosg**

4.31 Ar ben hynny, roedd rhai ymatebwyr yn canolbwyntio eu hawgrymiadau ar ehangu'r defnydd o fio-olosg fel defnydd gwerthfawr ar gyfer gweddillion coedwigoedd. Awgrymwyd y gellir troi tocion a thorbrennau, sydd fel arfer yn cael eu gadael heb eu defnyddio ar ôl cwympo, yn fio-olosg, gan ddarparu mwy o effeithlonrwydd o ran defnyddio adnoddau a gwerth ychwanegol o weithrediadau coedwigaeth. Gallai hyn yn ei dro gefnogi cynhyrchiant amaethyddol a chryfhau'r economi gylchol, ond mae'n dibynnu ar ehangu seilwaith a galluoedd prosesu.

**Gwerthu, marchnata ac ymwybyddiaeth**

4.32 Fel yr eglurwyd yn fanylach mewn rhannau eraill o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gwnaed rhai awgrymiadau i farchnata mwy ar bren Cymru, gan addysgu'r cyhoedd a defnyddwyr am werth pren domestig i annog y galw, a hyrwyddo'r defnydd ohono mewn tai cymdeithasol/adeiladu yn y sector cyhoeddus. Yn ogystal â'r cyhoedd, cafwyd awgrymiadau i greu adran gwerthu a marchnata masnachol ar gyfer coedwigaeth yn fewnol neu o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â thargedau / Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer gwerthu pren, gan gynnwys rhanbarthau a thimau gwerthu, ac atebolrwydd am gyflawni gwael.

**Cydlyniad**

4.33 Cafwyd awgrymiadau ychwanegol i gydlynu â gwledydd eraill y DU ar gyfeintiau, gan gynnwys awgrym i greu Gweithgor o dan y Tasglu Plannu Coed, gan gynnwys y cyrff sy'n cynrychioli'r diwydiannau pren. Byddai'r grŵp hwn yn fforwm i drafod strategaeth hirdymor ar gyfer plannu coed ledled y DU.

4.34 Roedd themâu allweddol eraill a gododd yn llai aml yn debyg i'r ymatebion i'r cwestiwn blaenorol, gyda galwadau cyffredinol i flaenoriaethu coedwigo ar raddfa fawr, ac annog ffermwyr i ymrwymo a chymryd rhan.

## Blaenoriaeth 2: Cynyddu cydnerthedd yn ein coedwigoedd

### Pa gamau y gellir eu cymryd yng Nghymru i leihau'r risgiau i'n coedwigoedd a achosir gan newid yn yr hinsawdd a phlâu a chlefydau?

### Ymatebion ar ffurflenni'r ymgynghoriad

5.1 Wrth ofyn i ymatebwyr pa gamau y gellir eu cymryd yn eu barn nhw i leihau'r risgiau i'n coedwigoedd yn sgil newid yn yr hinsawdd, plâu a chlefydau, mae'r adborth yn ymwneud nifer fach o themâu canolog.

**Cynyddu amrywiaeth cnydau coed / amlgnwd**

5.2 Teimlai llawer o ymatebwyr fod angen cynyddu amrywiaeth cnydau coed, gan gynnwys rhywogaethau sy'n gwrthsefyll effeithiau hinsawdd, plâu a chlefydau. Nodwyd yn rheolaidd bod ungnwd yn annymunol, ac ystyriwyd amrywiaeth ac amlgnwd fel dulliau o gynyddu cydnerthedd y coedwigoedd drwy gynnwys planhigion sy'n gwrthsefyll clefydau. Tynnwyd sylw hefyd at amrywiaeth wrth blannu fel ffordd effeithiol o atal tân rhag lledaenu gan fod hyn yn effeithio ar un rhywogaeth yn amlach.

5.3 Roedd hwn yn argymhelliad cyffredinol, ac yn benodol ynghylch Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru. Er bod sbriwsen Sitka yn cael ei hamlygu fel rhywogaeth bwysig o ran ei gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd, nodwyd risgiau hefyd o ran ei bregusrwydd i blâu, yn enwedig pan nad oedd yn cael ei rheoli'n ddigonol.

> “Gallai'r llywodraeth ystyried ailstrwythuro grantiau i wella cydnerthedd coetiroedd presennol drwy greu haenau canopi gwahanol a chyflwyno rhywogaethau mwy amrywiol' (Trydydd sector - corff anllywodraethol amgylcheddol)
>
> Mae'n bwysig bod amrywiaeth o rywogaethau a chymysgedd o systemau coedyddiaeth priodol yn cael eu mabwysiadu i wella gwydnwch. Arallgyfeirio yw'r allwedd. Byddai mwy o gymhellion i annog tyfwyr i ehangu'r amrywiaeth o rywogaethau maen nhw'n eu plannu yn helpu, ochr yn ochr â mwy o ymchwil a thystiolaeth ar addasrwydd rhywogaethau presennol ac amgen yn y dyfodol, gan ystyried eu cydnerthedd hinsoddol yn y dyfodol yn ogystal â'u potensial cynhyrchiol. Mae rhew hwyr, sychder yn yr haf ac amodau dwrlawn yn y gaeaf i gyd yn ffactorau i'w hystyried. Gallai hyn gynnwys sefydlu treialon newydd a defnyddio gwybodaeth o gynlluniau plannu presennol ledled Prydain. Efallai y bydd angen derbyn gostyngiad mewn cynyddran gyffredinol i greu adnodd sy'n gallu gwrthsefyll y cynhesu o dair gradd a ragwelir yn ystod y Ganrif hon [...] Mae sicrhau bod offer fel Dosbarthiad Safle Ecolegol (ESC) yn seiliedig ar yr amcanestyniadau newid hinsawdd diweddaraf ac ymchwil addasrwydd rhywogaethau hefyd yn bwysig i helpu'r sector i wneud y penderfyniadau plannu gorau, yn ogystal â hyrwyddo canllawiau ar Fathau Datblygu Coedwigoedd (Ymchwil Goedwigoedd) i lywio penderfyniadau ar amrywio cymysgeddau rhywogaethau a choedwigaeth gorchudd parhaus.” (Y sector cyhoeddus - rheoli coetiroedd)

5.4 Er mwyn hwyluso amrywiaeth, awgrymodd rhai fod angen cymhelliant i annog tyfwyr i ehangu eu hamrywiaeth o rywogaethau, gan gysylltu ag ymchwil a all brofi addasrwydd cnydau coed amgen yn y dyfodol i fod yn fwy gwydn yn erbyn yr hinsawdd, plâu a chlefydau yn ogystal â chael mwy o botensial cynhyrchiol ac effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth ac iechyd ecosystemau.

> “Mae'n rhaid i amrywiaeth rhywogaethau fod wrth galon cynlluniau plannu newydd er mwyn osgoi'r sefyllfa bresennol gydag e.e. coed ynn. Yn Lloegr, mae tirfeddianwyr wedi cael eu gwthio tuag at blannu coed llydanddail cymysg mewn llawer o achosion ac wedi bod yn fodlon bwrw ymlaen yn bennaf oherwydd bod y grant yn ddeniadol. Yng Nghymru, dylai penderfyniadau plannu yn y dyfodol fod yn seiliedig ar ddisgrifiad mwy trylwyr o fanteision ac anfanteision gwahanol fathau o blannu; costau parhaus disgwyliedig ac enillion disgwyliedig, sy'n fwy cynhwysol o safbwyntiau'r perchnogion.” (Sefydliad aelodaeth / corff cynrychioliadol - sgiliau)

5.5 Fodd bynnag, nododd llawer y dylai'r arallgyfeirio hwn ddod o stoc frodorol er mwyn osgoi mewnforio plâu a chlefydau.

> “Ar gyfer coetir llydanddail brodorol, mae'r [sefydliad] yn cynghori yn erbyn defnyddio tarddiadau deheuol, gan fod y sylfaen dystiolaeth ar gyfer y dull hwn yn wan: bydd ein coed brodorol yn aros yn eu hamgylchedd hinsawdd i raddau helaeth hyd yn oed yng ngoleuni newidiadau amrywiol yn yr hinsawdd sydd wedi'u modelu, sydd eisoes â lefelau uchel o amrywiaeth genetig a throsiant/rhyngweithio â tharddiadau cyfandirol ac mae effeithiau hirdymor newid yn yr hinsawdd yn parhau i fod yn anrhagweladwy iawn. Gallai Llywodraeth Cymru gymell dewisiadau o stoc leol drwy wneud hyn yn ofyniad ar gyfer plannu brodorol fel rhan o gynlluniau a ariennir gan grantiau. (Y trydydd sector - rheoli coetiroedd)

> “Ni ddylid caniatáu i bwysau diwydiannol i amrywio'r stoc anfrodorol ar gyfer plannu masnachol ysgogi mewnforio stoc mewn ffordd a allai gynyddu'r risg o fewnforio plâu a chlefydau newydd: bydd hyn yn gofyn am gydlynu ar lefel y DU, nid dim ond Cymru ar ei phen ei hun.” (Trydydd sector - corff anllywodraethol amgylcheddol)

5.6 Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen dull rheoli coedwigoedd sy'n agosach at natur, gan gynnwys Coedwigaeth Gorchudd Di-dor, ac y byddai angen i reolwyr coetiroedd weithio'n agos gydag ymchwilwyr coedwigaeth i sicrhau bod y mathau o rywogaethau a'r dosbarthiad ohonynt yn addas ar gyfer yr ardal.

**Cynyddu monitro / cynnal a chadw coetiroedd**

5.7 Roedd cynyddu monitro a chynnal a chadw coedwigoedd yn thema gyffredin arall mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon. Teimlai ymatebwyr y bydd mynd ati i fonitro a rheoli plâu a chlefydau sy'n dod i'r amlwg yn lleihau bregusrwydd ymhellach ac yn creu coedwigoedd cryfach sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd gyda'i gilydd. Ystyriwyd bod pwysigrwydd chwilio am arwyddion cynnar o blâu a chlefydau yn hanfodol i feithrin cadernid, gan gynnwys awgrymiadau i gynyddu archwiliadau ar ffiniau. Teimlai eraill, yn ogystal â monitro a chynnal a chadw coetiroedd, y dylai hyfforddiant ac ardystio fod ar waith hefyd, gan edrych ar reoli rhywogaethau,

atal/rheoli tân ac iechyd pridd. Gallai'r hyfforddiant hwn helpu i reoli coedwigoedd rhag effeithiau hinsawdd a lliniaru risgiau drwy eu harferion.

> “Mae'r diffyg rheolaeth briodol yn achosi cyflwr ecolegol gwael mewn llawer o'n coetiroedd brodorol, sy'n golygu eu bod yn llai gwydn i fygythiadau” (Sefydliad aelodaeth / corff cynrychioliadol - rheoli coetiroedd)

> “Bydd coedwigoedd sy'n cael eu rheoli'n dda ac sy'n cynnwys coed iach yn fwy gwydn yn erbyn newid yn yr hinsawdd. Bydd dylunio i gynnwys clustogfeydd, amrywiaeth synhwyrol o rywogaethau a theneuo coed er mwyn sicrhau nad ydynt dan straen oherwydd cystadleuaeth i gyd yn helpu” (Y sector preifat - rheoli coetiroedd)

5.8 Roedd rhai ymatebwyr yn ffafrio teneuo coetiroedd yn rheolaidd yn hytrach na llwyrgwympo er mwyn lleihau grym y gwynt, erydu pridd a'r perygl o lifogydd. Cytunodd llawer fod angen cyllid er mwyn gallu gwneud hyn yn amserol, yn enwedig mewn perthynas â thirfeddianwyr preifat.

> “Mae effeithiau niweidiol llwyrgwympo bellach wedi'u cofnodi'n dda ledled Ewrop, o ddiraddio pridd, gwynt-sychu pridd ac erydu (gollyngiadau carbon dilynol), i ddarnio a dirywiad mewn cynefinoedd a chysylltedd ecolegol. Dylai coedwigaeth fod yn sector allweddol yng Nghymru sy'n dangos egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan fod yn esiampl o ddull ecosystemau y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, sy'n sail i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Yn anffodus, mae'r dull presennol ynghylch cadwraeth bioamrywiaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru wrth reoli Ystâd Goed Llywodraeth Cymru yn rhwystr, yn ymarfer ticio blychau a 'rhannu’r goedwig yn adrannau', heb fawr o ddealltwriaeth na chydnabyddiaeth o sut mae ecosystem goedwig iach yn gallu gwrthsefyll sychder a stormydd yn well, atal llifogydd a llygredd, goddef plâu a chlefydau neu wrthdroi dirywiad rhywogaethau.” (Trydydd sector - corff anllywodraethol amgylcheddol)

5.9 Tynnodd eraill sylw hefyd at y ffaith y byddai angen addasu dulliau rheoli coetiroedd i edrych ar fesurau cadernid gwell yn wyneb digwyddiadau tywydd eithafol, newid yn yr hinsawdd, plâu a chlefydau, ac y gallai'r gwaith cynnal a chadw presennol fod yn annigonol. Byddai trosglwyddo gwybodaeth a mwy o arweiniad gan y llywodraeth yn bwysig er mwyn sicrhau mwy o reolaeth a chynnal a chadw.

> 'Bydd angen addasu'r modd y rheolir coetiroedd...Dylai technegau Gorchudd Parhaol, coedwriaeth effaith isel yn yr ucheldiroedd a phlanhigion torlannol gael eu cymell i leihau'r risg o effeithiau.' (Trydydd sector - corff anllywodraethol amgylcheddol)

**Cymryd camau ychwanegol i atal risgiau gwres yr haf**

5.10 Edrychodd nifer o argymhellion gan ymatebwyr ar gael gwared â thocion a sut y gallai hyn leihau nifer y tanau mewn coedwigoedd yng Nghymru. Cytunodd rhai hefyd y gallai hyn helpu i leihau'r risg o fwy o blâu a chlefydau sy'n gallu codi pan fydd pren gwastraff yn cael ei adael i bydru, er y cydnabuwyd hefyd y dylid gadael cyfran fach i gefnogi bioamrywiaeth.

> “Gellir lliniaru a rheoli tanau gwyllt drwy glirio deunydd llosgadwy sy'n cronni ar loriau coedwigoedd yn rheolaidd ac ar ôl gweithrediadau gwaith coed.” (Sector preifat - sectorau lluosog)

5.11 Mae rhai'n credu bod technegau rheoli coedwigoedd fel llosgi dan reolaeth, rhwystrau tân a theneuo strategol i gyd yn gallu helpu i leihau tanau yn yr haf ac maent yn hanfodol i gynnal coedwig iach.

> "Creu Atalfeydd Tân: Gall creu atalfeydd yn y goedwig helpu i atal tanau rhag lledaenu drwy gael gwared ar lystyfiant a allai roi tanwydd i'r fflamau." (Y sector preifat - cynaeafu a chludo)

5.12 Awgrym arall oedd hyfforddi timau rheoli coedwigoedd i atal tanau i leihau'r risg o danau coedwig a sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y coedwigoedd, a chynigiodd lleiafrif o ymatebwyr fod angen mwy o ymgyrchoedd addysg ac atal i amddiffyn coedwigoedd rhag tanau gan eu bod yn credu bod y rhan fwyaf o danau coedwigoedd yn cael eu hachosi gan weithgarwch dynol, felly byddai gwneud pobl yn ymwybodol o'r sefyllfa yn ddull mwy effeithiol o atal.

5.13 Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, mae rhai'n credu y dylid rhoi cynlluniau wrth gefn a thimau ymateb ar waith i helpu i leihau tanau gwyllt. Gyda nifer fach yn awgrymu y byddai ailgyflwyno afancod yn helpu gyda'r gwaith atal.

> "Gyda'r drwydded i ryddhau afancod sy'n byw'n rhydd yn edrych yn fwy tebygol yng Nghymru, mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i Afancod a chynefinoedd Afancod. A hynny o fewn y drwydded cwympo coed a'r system reoleiddio a chynlluniau grant, fel nad yw addasiadau afancod yn cael eu cosbi, ond yn cael eu hystyried yn gadarnhaol ac yn rhan o goetir o fewn ecosystem. Mae Ailwylltio Prydain wedi gofyn i gynefinoedd afancod gael eu cynnwys yn y cynefin 10% yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac, yn ddelfrydol, eu cydnabod yn yr haen gydweithredol, ar gyfer tirfeddianwyr sy'n gweithio ar raddfa dalgylch lle mae afancod yn bresennol. Mae afancod a'u cynefin gwlyptir yn helpu i leihau'r perygl o dân a sychder, a fydd yn diogelu coetiroedd. (Trydydd sector - corff anllywodraethol amgylcheddol)

5.14 Roedd awgrymiadau ychwanegol yn cynnwys adolygu'r strategaethau rheoli phytophthora ramorum presennol i asesu a yw'r rhain yn dal yn briodol, a hyrwyddo addysg ehangach ar blâu a chlefydau.

> "Mae dulliau eraill o ddelio â phytophthora ramorum, rhaid rhoi'r gorau i'r dull o lwyrgwympo coed llarwydd yn ddiangen er mwyn osgoi torri coed llarwydd yn gynnar, sef un o'n coed defnyddiol mwyaf gwerthfawr. Dull uniongyrchol o gael gwared â choed unigol y maent amlwg yr effeithiwyd arnynt, yn hytrach na'r cwympo eang sydd wedi cael ei annog gan CNC hyd yma.". (Coleg Llandrillo Menai)

> "Mae coed llarwydd yn bwysig iawn i felinau llifio bach. Mae angen ailagor y strategaeth rheoli PR coed llarwydd a'i hadolygu gyda FR i weld a yw'r strategaeth yn dal yn effeithiol [...] Mae gan Gymru gyfle pwysig i ddeall pam mae rhai coed llarwydd unigol yn gallu ymdopi â phytophthora ramorum yn ne Cymru yn y Parth Clefydau Craidd (CDZ). Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag academyddion a'r sector ehangach yn y CDZ i nodi nodweddion genetig sy'n creu goddefiant. Mae gan goed llarwydd y potensial i fod yn rhywogaeth bwysig mewn hinsoddau yn y dyfodol." (Sefydliad aelodaeth / corff cynrychioliadol - sectorau lluosog)

## Sut gall tyfwyr a meithrinfeydd gyflymu'r broses o roi mesurau addasu ar waith?

### Ymatebion ar ffurflenni'r ymgynghoriad

**Mae angen sicrwydd/ymrwymiad ar feithrinfeydd**

5.15 Mae llawer o ymatebwyr yn tynnu sylw at y ffaith bod angen ymrwymiad hirdymor ar dyfwyr a meithrinfeydd er mwyn i'r galw allu cyflymu'r broses o roi mesurau addasu ar waith. Tynnodd llawer sylw at y ffaith na ellir disgwyl i feithrinfeydd fuddsoddi'n helaeth mewn hadau a thechnoleg newydd os nad oes ganddynt yr hyder y byddant yn cael elw ar y buddsoddiad hwn.

5.16 Byddai sicrhau cyllid hirdymor yn hanfodol ar gyfer rhaglenni bridio coed, gyda rhai'n mynegi pryderon ynghylch y potensial i newidiadau polisi'r Llywodraeth yn y dyfodol arwain at golled ariannol, gan dynnu sylw at yr amseroedd arwain o dair blynedd o ran cynhyrchu ambell i stoc planhigion, a'r amseroedd arwain sydd eu hangen i sefydlu cadwyni cyflenwi ar gyfer hadau neu ddeunyddiau atgynhyrchu eraill o'r ansawdd genetig priodol.

> “Dydi o ddim fel pobi mwy o fisgedi mewn ffatri fisgedi! Mae’n cymryd 3 blynedd o gasglu hadau i gynhyrchu trawsblaniadau coedwigaeth ar gyfer gwerthu, felly mae cynllunio ymlaen llaw yn allweddol.” (Y sector preifat - rheoli coetiroedd)

> “Nid oes gan y sector meithrinfeydd yn y DU unrhyw broblemau o ran capasiti, mae ganddo broblemau o ran cysondeb a achosir gan newidiadau cyson ym mholisi'r llywodraeth. Er mwyn cyflawni ar raddfa fawr, mae angen gwelededd o leiaf 3 blynedd ymlaen llaw o leiaf ar y sector meithrinfeydd.” (Unigolyn)

5.17 Er mwyn rhoi'r sefydlogrwydd hwn i roi'r hyder i dyfwyr fuddsoddi, dywedodd rhai y byddai angen i'r cyllid a'r gefnogaeth ddod gan y sector a chan y Llywodraeth, o bosibl ar ffurf grantiau.

> "Byddant yn cael cymorth os yw Llywodraeth Cymru yn gyson yn ei chefnogaeth i'r diwydiant coedwigaeth. E.e. grantiau. (Unigolyn)

> “Mae sicrhau cyllid sefydlog, hirdymor ar gyfer bridio coed yn hanfodol ar gyfer datblygu coedwigoedd gwydn a chynhyrchiol. Dyma rai pwyntiau allweddol i'w hystyried: 1. Ffynonellau Cyllid Amrywiol: Gall archwilio gwahanol gyfleoedd cyllido, gan gynnwys grantiau'r llywodraeth, buddsoddiadau'r sector preifat, a sefydliadau nid-er-elw, ddarparu'r cymorth ariannol angenrheidiol. 2. Grantiau'r Llywodraeth 3. Cymorth y Sector Preifat ac Nid er Elw: Gall cydweithio â sefydliadau fel Ymddiriedolaeth Coed y Dyfodol a’r Gydweithrediaeth Bridio Conwydd wella ymdrechion ymchwil a datblygu. 4. Buddsoddiad Cyson a Hirdymor: Mae sicrhau bod cyllid yn sefydlog ac yn hirdymor yn hanfodol i lwyddiant rhaglenni bridio coed, o ystyried cylchoedd twf hir coed. (Unigolyn)

**Mae angen ymchwil ac arloesedd ychwanegol**

5.18 Roedd yr ymatebion yn sôn yn aml am ymchwil ac arloesi i gyflymu'r broses o roi mesurau addasu ar waith ar gyfer tyfwyr. Ymhlith yr awgrymiadau roedd yr angen am dechnegau bridio coed datblygedig i nodi a datblygu coed sy'n gallu gwrthsefyll

plâu, clefydau a newid yn yr hinsawdd; ymchwil i addasiadau lleol (e.e. sut mae hedyn yn perfformio ar wahanol uchderau); mapio ffynonellau hadau o ansawdd uchel, modelau rhagolygu a galw am blannu; brechu mycorhisol a rhag-driniaeth â phryfladdwyr; ymchwil i sut mae pathogenau'n lledaenu mewn meithrinfeydd; ac ymchwil i'r defnydd o fio-olosg ar gyfer gwella pridd.

5.19 Byddai cydweithio rhwng sefydliadau allweddol yn arwain at ragor o ymchwil, gan gynnwys hwyluso trosglwyddo gwybodaeth rhwng meithrinfeydd, tyfwyr a llunwyr polisïau, a defnyddio arferion gorau, gan gynnwys o wledydd eraill.

> “Mae angen mwy o ymchwil i dechnegau tyfu rhywogaethau a fydd yn ymateb i anghenion sy'n newid. Mae angen i ganlyniadau'r gwaith ymchwil hwn fod ar gael yn eang a chael eu cyfleu i feithrinfeydd sydd â chefnogaeth ar gael i'w helpu i ymateb ac addasu eu harferion.” (Sefydliad aelodaeth / corff cynrychioliadol - rheoli coetiroedd)

5.20 Er bod ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol bod buddsoddi mewn ymchwil i ganfod a lledaenu mathau sy'n gwrthsefyll clefydau yn hanfodol er mwyn cynyddu gwydnwch ac addasu wrth gynhyrchu coedwigoedd, awgrymwyd buddsoddiad gan y llywodraeth a chyllid grant hefyd ar gyfer ymchwil a datblygu. Teimlwyd y byddai buddsoddi yn y technegau hyn nid yn unig yn gwella cydnerthedd coedwigoedd ond y gallai hefyd wella iechyd pridd drwy wella arferion cynaliadwy. Teimlai rhai mai asiantaethau ymchwil a gwaith y Llywodraeth yn meithrin cydweithio fyddai'n sbarduno hyn, ac y byddai angen dangos llwyddiant amlwg cyn y gellid rhoi'r technegau ar waith ar raddfa ehangach.

**Ffynonellau hadau o ansawdd uchel**

5.21 Pwysleisiwyd hefyd, er mwyn cyflymu'r broses o roi mesurau addasu ar waith, yr angen i gasglu hadau o goed o ansawdd uchel yn hytrach na dim ond y rhai hawsaf eu cyrraedd, a all weithiau fod ar ochr y ffordd, a blaenoriaethu stoc frodorol yn hytrach na mewnforion.

> “O ran ein coedwigoedd brodorol, detholiad o stoc leol, cynnydd mewn stoc feithrin frodorol neu, yn ddelfrydol, defnydd o adfywio naturiol neu gytrefu yw'r dull mwyaf dymunol ar gyfer addasu i'r hinsawdd a chanlyniadau bioamrywiaeth. Gellid cymell meithrinfeydd coed yng Nghymru i ymuno â chynllun Sourced and Grown y DU ac Iwerddon Coed Cadw, sy'n sicrhau bod ffynonellau hadau o darddiad lleol, ac yn darparu'r gallu gorau i goed yn y dyfodol addasu i amodau amgylcheddol lleol a newid hinsawdd yn y dyfodol a goddef achosion o blâu a chlefydau yn y dyfodol.” (Trydydd sector - corff anllywodraethol amgylcheddol)

5.22 Ar ben hynny, cafwyd awgrymiadau llai aml y dylid annog meithrinfeydd ymhellach i fabwysiadu dulliau bridio coed modern, fel stoc wedi'i dyfu mewn celloedd, ac y byddai mwy o hyblygrwydd o ran ffenestri plannu yn galluogi meithrinfeydd i gynllunio a darparu cyfran uwch o stoc plannu wedi'i dyfu ym Mhrydain.

# Blaenoriaeth 3: Effeithlonrwydd adnoddau ac economi gylchol

## Pa gamau y gellid eu cymryd yng Nghymru i annog ailddefnyddio ac ailgylchu pren er mwyn lleihau gwastraff?

### Ymatebion ar ffurflenni'r ymgynghoriad

6.1 Nododd ymatebwyr amrywiaeth o gamau gweithredu i annog economi goed fwy cylchol, gydag awgrymiadau'n canolbwyntio ar ddatblygu'r farchnad, cymhellion ariannol, a newidiadau rheoleiddiol.

**Newidiadau rheoleiddiol**

6.2 Roedd un o'r ymatebion mwyaf cyffredin yn galw am ddiwygiadau polisi a rheoleiddio i gefnogi ailddefnyddio pren, gan gynnwys awgrym i ddarparu cymhellion, fel tynnu TAW o bren wedi'i ailgylchu i wneud ei ddefnyddio'n fwy deniadol, cymhellion treth ar gyfer prosiectau adeiladu sy'n gallu dangos tystiolaeth o ailddefnyddio pren, neu gosbau treth ar y llaw arall ar gyfer y rheini sy'n defnyddio pren/concrit a brics newydd. Dywedodd nifer o ymatebwyr y gellid cyflawni hyn hefyd drwy newid polisïau caffael cyhoeddus a'u gorfodi ar draws Llywodraeth Cymru.

> “Byddai cymhellion polisi a rheoliadau i annog defnydd cynaliadwy o bren ac ailgylchu yn helpu i leihau gwastraff pren.” (Sector preifat - gweithgynhyrchu a datblygu cynnyrch)
>
> “Rhoi cymhorthdal i adeiladu tai ffrâm bren a/neu drethu adeiladu tai briciau/concrit... Annog yr economi gylchol.” (Sector cyhoeddus arall - Rheoli coetiroedd)
>
> "Defnyddio prosesau caffael y llywodraeth i sbarduno gwell ymddygiad a chefnogi strategaeth y llywodraeth yn fwy mesuradwy. Cysylltu ar draws holl adrannau'r llywodraeth er mwyn gallu rhoi polisïau ar waith i gefnogi'r defnydd o bren Cymru.” (Sefydliad aelodaeth / corff cynrychioliadol - sectorau lluosog)

6.3 Tynnwyd sylw hefyd at newidiadau rheoleiddio allanol o ran y potensial i effeithio ar ailddefnyddio pren, fel gweithredu'r diwygiad i Ran Z Rheoliadau Adeiladu'r DU, gyda'r nod o leihau allyriadau carbon corfforedig mewn prosiectau adeiladu newydd.

6.4 Cafwyd awgrymiadau ychwanegol yn ymwneud â gweithgareddau coedwigaeth, yn hytrach na chynhyrchion. Roedd hyn er mwyn creu gofyniad i gasglu tocion a changhennau coed oddi ar y tir ar ôl cwympo coed i'w defnyddio e.e. wrth gynhyrchu bio-olosg, ac awgrymiadau amgen i wneud cynhyrchwyr yn gyfrifol am gylch bywyd pren, a thargedu diwydiannau penodol sy'n cynhyrchu gwastraff coed.

**Cymell adennill pren**

6.5 Yn ogystal â chymell cynhyrchwyr a marchnadoedd i ailddefnyddio pren, tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at bwysigrwydd newidiadau polisi a chymhellion ariannol o ran sefydliadau ailgylchu. Roedd hyn yn cynnwys newid y broses cymeriant pren mewn canolfannau ailgylchu, naill ai drwy fuddsoddi mewn seilwaith ailgylchu,

gwahardd pren o safleoedd tirlenwi, neu atal awdurdodau lleol rhag codi tâl am ailgylchu pren.

> "Datblygu Seilwaith Ailgylchu Pren - buddsoddi mewn cyfleusterau casglu, didoli a phrosesu pwrpasol i ddargyfeirio pren gwastraff o safleoedd tirlenwi a sicrhau ei fod yn cael ei ailddefnyddio gymaint â phosibl ym maes adeiladu, dodrefn a gweithgynhyrchu." (Unigolyn)

6.6 Roedd cefnogaeth hefyd i feithrin mwy o gydweithio â busnesau adfer, neu ddarparu cymorth uniongyrchol iddynt, a chyllid ar gyfer arloesi o ran ailddefnyddio pren ôl-ddefnydd.

> "Mae angen cymorth a chefnogaeth ariannol ar fusnesau newydd, yn ogystal â grantiau arloesi i roi hwb cychwynnol i ymchwil, nid yn unig i brifysgolion ond i fusnesau." (Y sector preifat - cynaeafu a chludo)

> "Bydd gan bob gwneuthurwr pren warged o sgil-gynhyrchion fel torbrennau, naddion a blawd llif, ond ni fydd ganddynt o reidrwydd y cyfleusterau i ddelio â'r 'gwastraff' hwn. Byddai creu cyllid ar gyfer nifer o gyfleusterau prosesu canolog (e.e. gweithgynhyrchu pelenni pren, gweithfeydd mwydo, gweithgynhyrchu pren wedi'i beiriannu, ac ati) yn caniatáu i'r gwastraff hwn gael ei droi'n gynnyrch mwy dymunol a gwerthfawr, gan greu swyddi a rhoi hwb i economi Cymru yn y broses. Fel cam cyntaf, byddai creu a chynnal safle i hwylusydd gysylltu busnesau sy'n cynhyrchu sgil-gynhyrchion o'r fath â'r rhai sy'n gallu eu defnyddio yn gam cadarnhaol tuag at leihau gwastraff." (Sector preifat - melinwyr a chynhyrchwyr)

> "Mae angen annog contractwyr gwastraff a dymchwel i arbed pren sy'n dod i'w dwylo. Mewn hen adeiladau yn enwedig, gellid ailgylchu neu ailddefnyddio distiau, drysau, fframiau drysau a fframiau ffenestri, yn enwedig os ydynt wedi'u gwneud o bren caled. Gellid cymell hyn pe gellid cynnig pris fesul tunnell o bren a drosglwyddwyd, yn yr un modd â metel sgrap. (Unigolyn)

6.7 Awgrymodd eraill y dylid gwneud canolfannau ailgylchu/seilwaith/gwasanaethau casglu coed yn fwy hygyrch nag y maent ar hyn o bryd.

**Hyrwyddo newidiadau dylunio**

6.8 Awgrymodd rhai y gellid gwneud newidiadau i ddyluniad cynnyrch sy'n ymestyn oes ddefnyddiadwy pren. Roedd hyn yn cynnwys dulliau dylunio sy'n galluogi ailddefnyddio mewn adeiladu, defnyddiau newydd o bren o ansawdd is, a chynhyrchion defnyddiol i atal pren ôl-ddefnydd rhag mynd i safleoedd tirlenwi.

> "Buddsoddi mewn datblygiadau arloesol newydd gan ddefnyddio pren o ansawdd is neu bren wedi'i ailgylchu fel Glulam / LVL / CLT sy'n lleihau gwastraff ac yn disodli cynhyrchion concrid â dewisiadau amgen cynaliadwy a charbon is." (Y sector preifat - rheoli coetiroedd)

> "Mae angen cefnogi awdurdodau lleol i ymgysylltu â phren wedi'i ailddefnyddio a'i ailgylchu... i wneud hyn yn norm." (Trydydd sector - marchnadoedd)

> "Bydd hyrwyddo manteision ailgylchu pren fel arbedion effeithlonrwydd o ran deunyddiau a manteision amgylcheddol yn helpu busnesau i wneud

dewisiadau o ran deunyddiau, yn enwedig o ran triniaethau.” (Trydydd sector - corff anllywodraethol amgylcheddol)

**Creu hierarchaeth defnydd**

6.9 Roedd nifer o awgrymiadau'n cynnwys gweithredu hierarchaeth pren gwastraff i optimeiddio ailgylchu pren a sicrhau bod llosgi pren ar gyfer tanwydd yn ddewis olaf, er bod un ymatebydd wedi rhybuddio y gallai targedau i orfodi hyn fod yn wrthgynhyrchiol.

“Dros y degawd diwethaf, mae cyfaint y pren gwastraff sy'n cael ei gyfeirio at adfer ynni wedi cynyddu'n sylweddol, gydag adfer ynni bellach yn cyfrif am tua dwy ran o dair o'r cyflenwad domestig sydd ar gael. Os bydd y gwaith o flaenoriaethu pren gwastraff ar gyfer adfer ynni neu gynhyrchu SAF yn parhau ar draul ailgylchu, ni fydd digon o gyflenwad o bren gwastraff ar gyfer diwydiannau fel gweithgynhyrchu paneli pren sy'n dibynnu ar ailgylchu. [...] Er mwyn atal y sefyllfa hon, mae'n hanfodol sbarduno'r defnydd cynyddol o bren ar draws yr economi. Un mesur effeithiol fyddai cynnal yr Hierarchaeth Pren Gwastraff mewn polisi, sy'n blaenoriaethu ailgylchu dros adfer ynni. Bydd hyn yn helpu i ddiogelu'r cyflenwad o ddeunyddiau crai ar gyfer gweithgynhyrchu gwerth uchel ac yn cefnogi atafaelu carbon estynedig.” (Kronospan Limited)

“Weithiau, gellir defnyddio hierarchaeth mewn cysylltiad â chynhyrchion pren sylfaenol, ond mae hefyd yn cael ei defnyddio yn y ddogfen hon mewn perthynas â hierarchaeth pren gwastraff. Mae hierarchaeth hefyd yn gysyniad sy'n ymwneud â modelau optimeiddio defnyddio adnoddau, neu optimeiddio effeithiau storio carbon. Fodd bynnag, rhaid cydbwyso'r cysyniad o hierarchaeth â'r rhaniad cynnyrch sy'n digwydd o ganlyniad naturiol i droi deunyddiau crai silindrog yn gynhyrchion petryal. Mae angen cymysgedd o gynhyrchion am resymau ymarferol. Mae'n wrthgynhyrchiol ffafrio un cynnyrch o'r fasged hon ar draul eraill oherwydd rhyw flaenoriaeth neu darged. Bydd y broses o ddefnyddio melinau llifio (neu ddulliau eraill o greu cynnyrch) hefyd yn adlewyrchu patrwm twf y pren yn y silindr hwn - gan geisio defnyddio deunydd o'r ymyl, neu o'r canol, neu o gyfeiriadau penodol yn y log o bryd i'w gilydd. Mae penderfyniadau ynghylch patrwm torri melin lifio yn cael eu dylanwadu gan yr awydd i baru'r cynnyrch â'r rhan o'r log y mae wedi'i dorri ohoni, ac mae angen meddwl rhywfaint am ansawdd a gwerth.” (Sector cyhoeddus - sgiliau)

6.10 Her bosibl wrth roi hyn ar waith yw'r peryglon posibl sy'n gysylltiedig ag ailgylchu pren gwastraff.

O ran ailgylchu, mae ansawdd pren gwastraff yn amrywio ac efallai'n beryglus oherwydd yr ychwanegion a'r triniaethau sy'n cael eu defnyddio. Felly, rydym yn pwysleisio ei bod yn bwysig, ar gyfer ailgylchu, adfer ac ailddefnyddio pren gwastraff, ei fod yn bodloni gofynion Erthygl 13 y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff (Cyfarwyddeb 2008/98/EC).” (Y sector cyhoeddus - rheoli coetiroedd)

### Camau sydd eisoes wedi'u cymryd

6.11 Dywedodd rhai fod camau eisoes yn cael eu cymryd i fynd i'r afael ag ailddefnyddio ac ailgylchu pren a'i annog, ac y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar y rhain ar gyfer arferion gorau, neu ailwerthuso ei bwysigrwydd yn y strategaeth.

> “Mae'r gadwyn gyflenwi sefydledig yng Nghymru ar gyfer pren wedi'i ailgylchu yn darparu porthiant ar gyfer byrddau panel, gwelyau anifeiliaid (o bren glân) a thanwydd biomas. Mae cyfeintiau llai o bren yn cael eu hailddefnyddio neu eu hail-bwrpasu i greu eitemau cartref a deunyddiau adeiladu, yn aml gan fentrau cymunedol fel menter gymdeithasol Reseiclo yng Nghasnewydd, De Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo a chefnogi'r ddau fodel cadwyn gyflenwi.” (Trydydd sector - sectorau lluosog)

> “Cyfeirier at Gymdeithas Ailgylchwyr Pren. Mae'r Strategaeth yn disgrifio symiau bach iawn o bren sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, felly efallai fod mwy o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r mater hwn nag sy'n haeddiannol.” (Trydydd sector - corff anllywodraethol amgylcheddol)

## Sut gallai Cymru hyrwyddo arloesedd, dylunio a gweithgynhyrchu cynnyrch pren sydd â mwy o werth, oes estynedig a gwydnwch hinsawdd?

### Ymatebion ar ffurflenni'r ymgynghoriad

6.12 Cafwyd amrywiaeth eang o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac ystyriwyd bod arloesi'n dibynnu ar gapasiti ymchwil cryfach, galw cyson, a rheoliadau cefnogol. Teimlai ymatebwyr y dylai arloesi fod yn seiliedig ar ymchwil a dysgu, wedi'i atgyfnerthu gan alw cyson, ac wedi’i gefnogi gan fframweithiau rheoleiddio sy'n galluogi cynhyrchion pren sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd i ffynnu yng Nghymru.

### Cynyddu'r sylfaen wybodaeth

6.13 Yn benodol, tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen am fwy o fuddsoddi mewn ymchwil a chyfnewid gwybodaeth. Galwodd rhai am hyrwyddo arfer gorau yn well, tra bod eraill yn dangos cefnogaeth i ariannu prosiectau ymchwil a datblygu cydweithredol.

> “... cefnogi ymchwil a datblygu i driniaethau pren uwch, prosesau gweithgynhyrchu cynaliadwy, a thechnolegau dylunio.” (Sector preifat - gweithgynhyrchu a datblygu cynnyrch)

> “Dylid annog cydweithio rhwng diwydiant, y byd academaidd a chanolfannau arloesi drwy alwadau cyllido a chanolfannau arloesi. Bydd cefnogi busnesau newydd a busnesau bach a chanolig i gael gafael ar gyllid Ymchwil a Datblygu ac arbenigedd technegol yn helpu i dyfu cynnyrch a thechnolegau newydd. Gall DPP i ddylunwyr a gweithgynhyrchwyr helpu i wreiddio arloesedd ym mhob rhan o'r gadwyn gwerth.” (Unigolyn)

### Annog defnydd a chynyddu galw parhaus

6.14 Un ymateb cyffredin oedd bod cynnal neu gynyddu'r galw yn hanfodol i hyrwyddo arloesedd, yn enwedig lle gellid rhoi hyder y byddai'r galw hwn yn cael ei gynnal ymhell i'r dyfodol. I gyflawni hyn, awgrymwyd y byddai proses gaffael Llywodraeth Cymru yn ffordd o sbarduno newid, yn ogystal â marchnata a hyrwyddo'r sector i godi ymwybyddiaeth.

> “Defnyddio mwy o gynhyrchion pren/coed mewn prosiectau adeiladu uchel eu gwerth - yn benodol prosiectau sydd wedi cael buddsoddiad tymor hir gan y Llywodraeth. Yn enwedig tai cymdeithasol fforddiadwy lle mae'r Llywodraeth yn cefnogi lefelau uchel o fuddsoddiad sefydlog a hirdymor drwy'r Grant Tai Cymdeithasol a chynlluniau cyfalaf eraill.” (Sector cyhoeddus arall - marchnadoedd)
>
> 'Gallai Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth ag adeiladwyr tai... i ddatblygu a chyfleu protocol rhaeadru clir ar gyfer pren.' (Sector cyhoeddus arall - sgiliau)
>
> “Cefnogi arloesedd a masnacheiddio cynnyrch newydd fel deunydd inswleiddiad ffibr pren.” (Sector cyhoeddus arall - rheoli coetiroedd)
>
> “Gellir sbarduno'r gwaith o ddylunio ar gyfer datgymalu ac ailddefnyddio drwy amod pan fo’r llywodraeth yn caffael unrhyw adeiladau newydd.” (Sefydliad aelodaeth / corff cynrychioliadol)

### Newidiadau rheoleiddiol

6.15 Teimlai llawer o'r ymatebwyr y gellid cefnogi arloesi mewn dylunio drwy egluro a diwygio rheoliadau. Roedd hyn yn cynnwys diweddaru safonau adeiladu a diwygio manylebau pren technegol. Yn benodol, teimlai nifer o ymatebwyr y dylid dylunio prosiectau adeiladu newydd ar gyfer datgymalu ac ailddefnyddio.

> 'Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gosod targedau ar gyfer faint o bren sy'n cael ei ddefnyddio mewn gwaith adeiladu.' (Unigolyn)
>
> 'Mae angen diwygio a chefnogi safonau megis hyrwyddo C16 yn hytrach na gofyn bob amser am bren gradd strwythurol C24.' (Unigolyn)

### Cymhellion

6.16 Ffordd arall o feithrin arloesedd oedd drwy ddarparu grantiau a chymhellion. Roedd awgrymiadau naill ai'n targedu cymhellion ar gyfer datblygu cynnyrch - yn amrywio o gyllid uniongyrchol ar gyfer datblygu cynnyrch i feithrin cydweithio rhwng diwydiant, prifysgolion a'r llywodraeth - i gymell y galw am y cynhyrchion hyn i sbarduno arloesedd.

> “Creu cystadleuaeth flynyddol i ficrofusnesau gyda gwobrau a chydnabyddiaeth ynghlwm.” (Sefydliad aelodaeth / corff cynrychioliadol - sectorau lluosog)
>
> “Darparu mwy o grantiau ar gyfer cystadlaethau cynnyrch coed arloesol neu gynhyrchion pren gyda gwobrau.” (Sector preifat - gweithgynhyrchu a datblygu cynnyrch)

> “Gallai Llywodraeth Cymru gyflwyno cymhellion neu reoliadau i annog mabwysiadu cynnyrch o'r fath.” (Unigolyn)

6.17 Yn llai aml, cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at yr angen am ymgysylltu a chyfathrebu ehangach ar draws y gadwyn gyflenwi.

> “Cynyddu'r cysylltedd rhwng tyfwyr, cynhyrchwyr a gweithgynhyrchwyr. Mae angen i dyfwyr dyfu'r hyn y mae'r gwneuthurwyr eisiau ei brynu.” (Y sector preifat - rheoli coetiroedd)

**Edrych ar y cynnydd sy'n cael ei wneud eisoes**

6.18 Yn yr un modd â'r cwestiwn blaenorol, tynnodd rhai sylw at sefydliadau sydd eisoes yn gwneud cynnydd tuag at yr amcan hwn, fel Tai ar y Cyd, BSW Group a Kronospan, gan awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â nhw am eu harbenigedd.

## Blaenoriaeth 4: Meithrin hyder yn y galw

### Pa gamau y gellid eu cymryd yng Nghymru i gynyddu'r defnydd o bren a ffibr pren at ddibenion hirdymor, fel adeiladu?

### Ymatebion ar ffurflenni'r ymgynghoriad

**Cymhellion a newidiadau rheoleiddiol**

7.1 Yn fwyaf cyffredin, awgrymodd ymatebwyr annog mwy o ddefnydd o bren ym maes adeiladu, gan gynnwys gwneud newidiadau rheoleiddiol neu gymell ei ddefnyddio. Roedd yr awgrymiadau hyn yn cynnwys mynnu adeiladu â phren yn ystod y cam caffael, neu hyd yn oed gosbi gwaith adeiladu nad yw'n defnyddio pren.

7.2 Roedd newidiadau eraill a awgrymwyd yn cael eu targedu at oresgyn rhwystrau y mae adeiladwyr tai yn eu hwynebu wrth ddefnyddio mwy o bren, fel rhoi sicrwydd ynghylch diogelwch defnyddio pren wrth adeiladu i yswirwyr ac adrannau tân neu warantu risgiau.

> "Mae problemau gydag yswirwyr ac adrannau tân o hyd wrth adeiladu gyda phren. Mae angen mwy o gynlluniau gwarantu i warantu diogelwch hirdymor a hirhoedledd adeiladau ffrâm bren." (Unigolyn)

> "Mae gwneud pethau'n wahanol i'r norm yn anochel yn cynyddu cost adeiladu oherwydd ymateb dealladwy'r diwydiant yswiriant i newid ac anghynefindra. Mae'r diwydiant pren yn cyflawni ei gyfrifoldeb i fynd i'r afael â phryderon yswiriant drwy gyhoeddiadau fel Llawlyfr Yswiriant Pren Swmp ASBP. Mae tai ffrâm bren yn cael eu derbyn yn fwyfwy eang, nid yn unig yn yr Alban lle mae'n cyfrif am dros 90% o dai newydd, ond hefyd yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o'r angen am gyhoeddiad tebyg ar gyfer adeiladu isel fframiau pren safonol, yn enwedig pan ddefnyddir deunydd inswleiddio biogenig neu gladin pren. Mae rôl bosibl hefyd i'r llywodraeth warantu rhywfaint o risg mewn ffordd debyg i'r dull a ddefnyddir ar gyfer tai sy'n agored i lifogydd na fyddai modd eu hyswirio fel arall - gelwir hyn yn Flood Re. Efallai y bydd hefyd yn bosibl yswirio pob adeilad cyhoeddus a chartref cymdeithasol dan un polisi yswiriant hollgynhwysol sy'n lleihau risgiau a chostau i bob parti." (Sefydliad aelodaeth / corff cynrychioliadol - sectorau lluosog)

**Cysoni'r cyflenwad a'r galw**

7.3 Er mwyn hwyluso hyn, teimlai rhai ei bod yn bwysig cysoni cyflenwad pren yn well i farchnadoedd, o ran ansawdd pren ar gyfer defnydd adeiladu, a'i gyfaint. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn ymwneud â chreu rhagolygon gwell ac olrhain y cyflenwad a'r galw am bren i helpu busnesau.

> "Y Llywodraeth i annog mwy o ddefnydd cyfrannol o bren ym maes adeiladu. Mae angen i'r gadwyn gyflenwi gyfan gael chwistrelliad o hyder a fydd yn galluogi'r holl gyfranogwyr i chwarae eu rhan." (Unigolyn)

7.4 I rai, roedd hyn hefyd yn golygu bod angen cyfathrebu'n well o fewn y gadwyn gyflenwi a Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys ymgysylltu ag adeiladwyr tai am eu hanghenion, a cheisio cysoni twf a phrosesu pren â'r galw am adeiladu. Tynnwyd

sylw at y ffaith y byddai ymdrechion i gynyddu'r galw heb argaeledd cyflenwad pren lleol cyfatebol yn anghynaladwy yn amgylcheddol.

> “Cymorth i fentrau bach a chanolig, yn enwedig melinau llifio a gweithgynhyrchu cynnyrch sy'n mynd i gadwyni cyflenwi lleol fel eu bod yn gallu ymateb yn well i anghenion y farchnad. Mwy o bren ar gael gan Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru drwy Cyfoeth Naturiol Cymru, yn enwedig mewn lotiau bach sy'n addas ar gyfer proseswyr lleol.” (Sefydliad aelodaeth / corff cynrychioliadol - rheoli coetiroedd)

**Codi proffil pren o Gymru**

7.5 Yn ogystal â rhoi sicrwydd i adrannau tân a sefydliadau yswiriant, roedd ymatebwyr yn aml yn awgrymu cynyddu marchnata, ymwybyddiaeth neu addysg ynghylch pren o Gymru a'r sector, yr angen i fynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol o bren o Gymru, yn ogystal ag anfanteision defnyddio dewisiadau pren amgen mewn defnyddiau hirdymor fel adeiladu.

> “Mae GiB newydd gyflwyno erthygl chwalu mythau i'r TTJ ac un o'r mythau y mae'n mynd i'r afael â nhw yw nad yw pren cartref cystal â'r hyn sy'n cael ei fewnforio. Mae angen ffeithiau i chwalu'r canfyddiad hwn gan gynnwys ymchwil i'r defnydd o C16 yn hytrach na'r gorfanylu sy'n digwydd ar hyn o bryd gyda C24 a fewnforir. Mae angen gweithio gydag yswirwyr a manylebwyr i fynd i'r afael â'r mater hwn ynghyd â newid mewn meddylfryd tuag at ddefnydd effeithlon o'r pren sydd ar garreg ein drws.” (Trydydd sector - corff anllywodraethol amgylcheddol)

> “Hysbysebu, marchnata. Pwyslais ar y niwed o ddefnyddio plastigau.” (Unigolyn)

7.6 Roedd hyn yn cynnwys sylw ynghylch creu cyfle i ddefnyddio'r dyluniadau tai safonol yn llyfr patrymau Tai ar y Cyd i gyflymu gweithredwyr yn y farchnad tai cymdeithasol, a dangos galw ac ymrwymiad i ddefnyddio pren o Gymru.

## Sut gallwn ni ddefnyddio pren a ffibr coed cartref i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi leol?

### Ymatebion ar ffurflenni'r ymgynghoriad

**Cynyddu marchnata/ymwybyddiaeth o/addysg am bren o Gymru a'r sector**

7.7 Ar draws pob cwestiwn yn erbyn y flaenoriaeth hon, gwnaeth ymatebwyr awgrymiadau tebyg ar gyfer cynyddu marchnata a chyhoeddusrwydd am bren o Gymru i godi ymwybyddiaeth ymysg y sectorau masnachol a'r cyhoedd. Yn ogystal â hyrwyddo'r manteision i'r economi leol yn gyffredinol, un awgrym newydd oedd ei gwneud yn bosibl olrhain tarddiad cynnyrch pren er mwyn lleihau'r diffyg cysylltiad rhwng y cynhyrchydd a'r defnyddiwr.

> “Nid ydym yn gwneud digon o farchnata pren a gynhyrchir yn lleol. Pe bai'n hawdd ei olrhain i goedwig gan ddefnyddio technoleg cadwyn flociau, gallai newid canfyddiad y cyhoedd a gwneud iddynt weld y cysylltiad rhwng rheoli coetiroedd â chynhyrchion y maent yn eu defnyddio o ddydd i ddydd. Does

dim cysylltiad rhwng y cynhyrchydd a'r defnyddiwr. Faint o bobl sy'n gwybod o ble mae'r pren yn eu cadeiriau gardd yn dod? Efallai y bydd llawer yn ystyried bod defnyddio pren caled trofannol yn arwydd o gynnyrch premiwm, ond mae angen i ni dynnu sylw at fanteision pren lleol sy'n cael ei dyfu'n gynaliadwy." (Sefydliad aelodaeth / corff cynrychioliadol - marchnadoedd)

**Byrhau cadwyni cyflenwi / mwy o gadwyni cyflenwi lleol**

7.8 Roedd nifer o awgrymiadau'n galw am fwy o gadwyni cyflenwi lleol i leihau allyriadau trafnidiaeth a mewnforion, a chynyddu cyfranogiad cymunedau lleol.

"Mae pren yn adnodd adnewyddadwy sy'n helpu i leihau allyriadau carbon. Mae defnyddio pren lleol yn lleihau allyriadau trafnidiaeth ac yn cefnogi rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy." (Y sector preifat - cynaeafu a chludo)

"Bydd buddsoddi mewn capasiti prosesu domestig, gan gynnwys melinau llifio a chynhyrchu pren wedi'i beiriannu, yn lleihau dibyniaeth ar fewnforion. Gallai sefydlu clystyrau cyflenwi pren rhanbarthol gysylltu tyfwyr, proseswyr a defnyddwyr yn fwy effeithiol. Dylai caffael cyhoeddus ffafrio pren lleol lle bynnag y bo modd." (Sector preifat - sgiliau)

"Trwy sefydlu meithrinfeydd, coedwigoedd, melinau coed a systemau cludiant yn agos at ei gilydd mewn ardaloedd dros Gymru gyfan." (Unigolyn).

"Datblygu Canolfannau Cynhyrchu Bio-olosg Integredig: Sefydlu unedau cynhyrchu bio-olosg lleol ger safleoedd a meithrinfeydd coedwigaeth, gan ddefnyddio tocion a gweddillion pren. Mae hyn yn creu galw lleol ar unwaith, yn lleihau costau cludiant, ac yn annog rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy. Cysylltu Coedwigaeth ag Amaethyddiaeth: Hwyluso partneriaethau uniongyrchol rhwng cynhyrchwyr coedwigaeth, ffermydd lleol a meithrinfeydd garddwriaethol, gan alluogi ffermydd i ddefnyddio bio-olosg a gynhyrchir yn lleol i wella ffrwythlondeb pridd, i gadw dŵr, ac i wrthsefyll yr hinsawdd. Annog Mentrau Economi Gylchol: Meithrin mentrau sy'n troi pren gradd is a thocion yn fio-olosg, tomwellt sglodion pren, gwelyau anifeiliaid, ac is-haenau garddwriaethol. Mae'r cynhyrchion eilaidd hyn yn rhoi hwb sylweddol i werth economaidd lleol, creu swyddi ac effeithlonrwydd adnoddau." (Y sector preifat - rheoli coetiroedd)

**Cymhellion economaidd/datgymell defnyddio pren wedi'i fewnforio**

7.9 Ar ben hynny, roedd galwadau am gymhellion ariannol ar gyfer defnyddio pren lleol ym mhroses gaffael y llywodraeth, neilltuo cyllidebau carbon, neu ddatgymell mewnforion.

"Pwysleisio yng nghontractau'r llywodraeth y dylid defnyddio pren o'r DU mewn prosiectau adeiladu cyhoeddus. Gall hyn osod cynsail ac annog mabwysiadu ehangach yn y sector preifat." (Y sector preifat - cynaeafu a chludo)

#### Blaenoriaethu gweithredwyr/proseswyr ar raddfa fach

7.10 Tynnodd rhai sylw at ddiffyg capasiti melinau llifio bach, ac y byddai angen cymryd camau i annog eu mynediad at bren er mwyn prosesu pren sy'n cael ei gynhyrchu gartref, ac y gallai hyn fod yn rôl i Cyfoeth Naturiol Cymru neu Lywodraeth Cymru.

> “Mae bron y cyfan o'r melinau llifo bychain lleol a fodolai 25 mlynedd yn ôl wedi diflannu. Dim ond y gweithredwyr mawr sydd ar ôl.” (Y sector preifat - rheoli coetiroedd)

> “Mae angen gwell mynediad at e-Werthiant Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer melinau llifio/proseswyr/prynwyr bach neu arbenigol er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cynnyrch sydd ar gael i'r farchnad” (Unigolyn)

> “Dylid galluogi busnesau bach i fynd ati i gynhyrchu pren, drwy, er enghraifft, ehangu'r ystod gyfyngedig o rywogaethau y bydd melinau llifio mawr yn eu cymryd, helpu gyda chostau cludo neu ynni i'w wneud yn economaidd i'r felin, neu ariannu offer newydd. Mae ardystio'n bwysig ond mae'n ddrud iawn ar raddfa lai.” (Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM))

## Sut gall Cymru sicrhau bod y cyflenwad pren yn cyd-fynd yn well â galw'r farchnad?

### Ymatebion ar ffurflenni'r ymgynghoriad

#### Addysgu'r diwydiant

7.11 Yn debyg i themâu yn y cwestiwn blaenorol, roedd ymatebwyr yn aml yn teimlo bod angen cynyddu marchnata, ymwybyddiaeth ac addysg am bren o Gymru i farchnadoedd. Roedd hyn yn cynnwys addysg wedi'i chyfeirio at adeiladwyr tai/datblygwyr, penseiri, peirianwyr, tirfeddianwyr, a'r gymuned ehangach am fanteision pren o Gymru. Roedd rhai hefyd yn awgrymu integreiddio addysgu coedwigaeth â ffermio.

#### Cynyddu'r cyflenwad

7.12 Yn gyson â'r ymatebion i Flaenoriaeth 1, dywedodd ymatebwyr fod angen cynyddu'r cyflenwad pren yn sylweddol er mwyn bodloni'r galw nawr ac yn y dyfodol a lleihau'r ddibyniaeth ar fewnforion.

> “Dim ond 50% o'r pren crwn sy'n cael ei ddefnyddio yn Kronospan y gellir ei gael o'r farchnad yng Nghymru, felly gallai'r farchnad yng Nghymru amsugno o leiaf 250,000mt y flwyddyn o'r un ffynhonnell hon.” (Kronospan Limited)

#### Gwella dealltwriaeth o'r galw a chadwyni cyflenwi

7.13 Roedd galwadau am well dealltwriaeth o farchnadoedd lleol, mwy o ddata a rhagolygon am alw'r farchnad yn y dyfodol, manteisio i'r eithaf ar dwf rhywogaethau

y byddai adeiladwyr tai yn eu dymuno fwyaf, a phrosesu yn unol â'r manylebau a ddymunir.

> "Yn gyntaf, mae angen i ni ddeall beth yw'r galw. Er enghraifft, os oes galw am fwy o bren strwythurol C16 yna mae angen i ni sicrhau bod yr arferion rheoli a'r coedwigoedd cyhoeddus a phreifat yn hyrwyddo hyn." (Sector preifat - sgiliau)

> "Datblygu dealltwriaeth fwy integredig o farchnadoedd lleol yng Nghymru. Mae'r diwydiant cyflenwi pren yn gwbl ddibynnol ar bren wedi'i fewnforio at ddefnydd terfynol cyfyngedig iawn, yn enwedig yn y diwydiant adeiladu. Nid ydym wedi cadw digon o gapasiti melinau lifio i wrthbwyso'r duedd hon. Mae un ffactor yn dod i'r amlwg yn y gadwyn gyflenwi ddiwydiannol gyffredinol lle nad oes ymgais wirioneddol i raddio pren ar gyfer y felin lifio ar sail cynnyrch neu ansawdd. Yn gyffredinol, roedd hyn ond yn berthnasol i sythder logiau heb unrhyw gymhelliant i geisio ystyried graddio i werth log uwch ar gyfer marchnad wahanol. Mae hyn wedi bod yn wir yn gyffredinol ers amser hir iawn, efallai oherwydd diffyg cyfle yn y farchnad. Mae'r rhan fwyaf o'n graddau pren adeiladu uwch yn cael eu mewnforio felly nid oes llawer o gymhelliant i dyfu pren o ansawdd gwell. Mae'n ofynnol i adeiladwyr lleol a defnyddwyr pren fod â phren pwrpasol ac arbenigol nad yw ar gael fel arfer drwy bren traddodiadol sy'n seiliedig ar fewnforio ac sy'n cael ei gyflenwi gan felinau diwydiannol. Gellid ystyried hyn yn gyfle i ddatblygu fel mecanwaith cefnogi parhaus ar gyfer y rhwydweithiau cyflenwi lleol mewn melinau bach sydd â gwybodaeth arbenigol. Gallai'r llywodraeth gymryd yr awenau i gefnogi melinau a chynhyrchwyr lleol i gaffael a datblygu'r cyfleoedd hyn yn y farchnad." (Unigolyn)

# Blaenoriaeth 5: Datblygu capasiti'r sector

## Pa heriau y mae angen mynd i'r afael â nhw i wella recriwtio a chadw staff yn y diwydiannau coedwigaeth a phren yng Nghymru?

### Ymatebion ar ffurflenni'r ymgynghoriad

**Buddsoddi mewn addysg, hyfforddiant a llwybrau gyrfa**

8.1 Ar draws y cyflwyniadau, yr angen i fuddsoddi mewn addysg, hyfforddiant a llwybrau gyrfa oedd y thema gryfaf mewn ymateb i'r cwestiwn ar sut i wella recriwtio a chadw staff yn y diwydiant. Roedd rhai'n teimlo nad yw'r biblinell bresennol yn creu gweithlu digon mawr neu fedrus.

8.2 Nododd llawer o'r ymatebion bwysigrwydd hyrwyddo'r sector coedwigaeth yn well a'i lwybrau gyrfa i fwy o ddysgwyr a cheiswyr gyrfa. Yn sail i lawer o'r ymatebion hyn roedd adborth nad yw dysgwyr yn ymwybodol o'r cyfleoedd gyrfa sy'n bodoli yn y diwydiannau coedwigaeth a phren yng Nghymru, nac o lwybrau i mewn iddynt a thrwyddynt.

8.3 Teimlai rhai ei bod yn bwysig addysgu gwybodaeth a sgiliau sy'n ymwneud â choedwigaeth a phren ar bob lefel ac oedran addysg er mwyn codi proffil y sector mor gynnar â lefel gynradd. Gallai hyn gynnwys meithrin cysylltiadau cryfach rhwng gwahanol rannau o'r sector addysg yn ogystal â rhwng y sector addysg a diwydiant.

> “Cefnogi digwyddiadau ymgysylltu ag ysgolion drwy archwilio mecanweithiau i gefnogi ysgolion lleol i fynd i ddiwrnodau agored colegau, y mae angen iddynt gynnwys deall pam na allai ysgolion fod yn bresennol eleni.” (Sefydliad aelodaeth / corff cynrychioliadol - sectorau lluosog)

> “Os gall injan dân ymweld ag ysgol, pam na all cynaeafwr?” (Cydffederasiwn Diwydiannau Pren)

8.4 Tynnodd rhai sylw at yr angen i wella'r addysg a'r hyfforddiant sydd ar gael i ddysgwyr, gyda'r awgrymiadau'n cynnwys:

- Cynyddu nifer y cyrsiau galwedigaethol gyda gwahanol ddulliau cyflwyno ac addysgu i ehangu mynediad ac i weddu i ystod ehangach o arddulliau dysgu. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau ymarferol. Roedd enghreifftiau o arfer da yn cynnwys: Llysfasi (Coleg Cambria), Glynllifon (Grŵp Llandrillo Menai), a Phrifysgol Bangor
- Mwy o integreiddio rhwng cyrsiau mewn sectorau cysylltiedig (e.e. coedwigaeth ac amaethyddiaeth)
- Gwella cynlluniau prentisiaeth a chynyddu nifer y prentisiaethau sydd ar gael. Cynigiwyd y Cynllun Prentisiaeth Coedwigwyr Proffesiynol yn Lloegr fel enghraifft o arfer da
- Cynyddu'r cyfleoedd profiad gwaith sydd ar gael
- Gwreiddio coedwigaeth ar draws cwricwlwm yr ysgol o oedran iau (e.e. Ysgolion Coedwig)
- Adeiladu llwybrau coedwigaeth drwy'r ysgol (e.e. y sector gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol newydd mewn Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Choedwigaeth)

- Darparu hyfforddiant mewn sgiliau sy'n ofynnol mewn diwydiant penodol (e.e. trwyddedau HGV; hyfforddiant mewn offer trwm a pheryglus fel llifiau cadwyn)
- Gweithio gyda'r sector i gysoni cwricwla cyrsiau i ddiwallu anghenion sgiliau a gwybodaeth presennol y sector, o bosibl fel rhan o adolygiad o'r ddarpariaeth bresennol a bylchau yn y ddarpariaeth

8.5 Dylid hyrwyddo gyrfaoedd ym maes coed a choedwigaeth yn ehangach ymysg dysgwyr er mwyn codi ei broffil nid yn unig fel opsiwn gyrfa yn gyffredinol, ond hefyd fel opsiwn gyrfa medrus, modern, amgylcheddol sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys yr angen am fuddsoddiad i sicrhau bod cyngor gyrfaoedd a chynghorwyr gyrfaoedd yn gyfredol ac yn tynnu sylw at bren a choedwigaeth fel opsiynau gyrfa.

> "Mae angen i bobl ifanc ystyried bod coedwigaeth yn broffesiwn blaengar, deinamig ac amgylcheddol dderbyniol sy'n gallu arwain at nifer o fanteision i'r cyhoedd. Mae angen ei addysgu mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu'r angen i reoli ein coedwigoedd fel adnoddau naturiol cynaliadwy, lle mae cynhyrchu pren yn un o'r manteision a gyflawnir ochr yn ochr ag eraill - yr un mor bwysig - ynni adnewyddadwy, lliniaru llifogydd, cadwraeth bioamrywiaeth ac adfer natur, mynediad cyhoeddus, tirwedd. Mae gyrfa ym maes coedwigaeth yn gofyn am ddealltwriaeth drylwyr o sut y gellir cyflawni'r holl fanteision hyn ar yr un pryd mewn ffordd gytbwys o un ardal coedwig." (Sector preifat - arall)

> "Mae'n bwysig bod cynghorwyr gyrfaoedd yn cael eu haddysgu am goedwigaeth. Mae yna farn anfuddiol o hyd mewn ysgolion lle mae'n rhaid i chi fod yn gyfreithiwr neu'n friciwr. Mae'n ymddangos mai ychydig iawn o ystyriaeth sydd i'r ddarpariaeth yrfaol." (Y sector preifat - rheoli coetiroedd)

> "Mae diffyg ymwybyddiaeth ymhlith disgyblion, rhieni a chynghorwyr gyrfaoedd o'r amrywiaeth o yrfaoedd y gall coedwigaeth, ecoleg a phroffesiynau amgylcheddol ehangach eu cynnig, a dim digon yng nghwricwla ysgolion." (Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM))

> "Mae angen i Goedwigaeth fod yn bwnc mewn ysgolion cynradd ac uwchradd gyda gwefan Gyrfa Cymru wedi'i diweddaru sy'n cynnwys disgrifiad ofnadwy o'r sector ynghyd â manylion anghywir iawn am rolau, cyflogau a rhagolygon o'r galw, sydd i gyd yn niweidiol os cânt eu gweld gan bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol." (Y sector preifat - rheoli coetiroedd)

8.6 Mae angen hefyd gwella hyfforddiant a datblygiad proffesiynol i'r rhai sydd eisoes yn gweithio yn y sector. Mae angen i hyn fod yn hygyrch ac o ansawdd uchel, ynghyd â llwybrau datblygu clir.

8.7 Tynnodd rhai sylw at yr angen am gyllid i helpu i wella addysg a hyfforddiant. Roedd hyn yn cynnwys: helpu gyda chostau cyrsiau drud i newydd-ddyfodiaid i'r sector a'r rhai sy'n dymuno newid gyrfa i'r sector a dileu benthyciadau myfyrwyr ar gyfer pobl sy'n aros ac yn gweithio yng Nghymru.

**Mynd i'r afael ag amodau gwaith**

8.8 Awgrymodd llawer fod amodau gwaith coedwigaeth yn rhwystr rhag cael mynediad a recriwtio, yn enwedig i bobl ifanc.

8.9 Y mwyaf nodedig ymysg y rhwystrau a grybwyllwyd oedd diffyg tai fforddiadwy yn yr ardaloedd gwledig lle mae'r rhan fwyaf o swyddi coedwigaeth.

> “Adeiladwch adeiladau pren di-garbon parod mewn rhanbarthau lle mae angen y swyddi coedwigaeth hynny. Mae argaeledd a fforddiadwyedd tai yng nghefn gwlad yn rhwystr sylweddol.” (Trydydd sector - corff anllywodraethol amgylcheddol)

8.10 Roedd rhwystrau eraill yn aml yn cynnwys nodweddion y swydd a allai fod yn annymunol. Roedd rhai o'r rhain yn gorgyffwrdd â'r themâu blaenorol yn yr adran hon ac yn cynnwys:

- Amgylchedd gwaith (e.e. gweithio yn yr awyr agored, ym mhob tywydd; gweithio ar bob math o dir; defnyddio offer a pheiriannau trwm a pheryglus)
- Gwaith corfforol
- Cyflogau isel lle gellir ennill mwy o arian mewn swyddi eraill a swyddi sgiliau tebyg neu swyddi sgiliau is
- Cost hyfforddiant

8.11 Er na ellir newid rhai rhwystrau (e.e. gweithio yn yr awyr agored), roedd awgrymiadau ar gyfer elfennau y gellid mynd i'r afael â nhw yn cynnwys:

- Cyflogau cystadleuol drwy godi cyflogau a ddylai fod yn ddeniadol ar bob lefel mynediad
- Tai fforddiadwy
- Gwell boddhad yn y swydd
- Gwell sefydlogrwydd/diogelwch swydd
- Llwybrau cynnydd cliriach
- Codi proffil y proffesiwn o fewn systemau addysg ac ymhlith y cyhoedd
- Cyllid i gefnogi hyfforddiant

**Codi proffil cyhoeddus y sector**

8.12 Yn ogystal â'r angen i godi proffil y sector o fewn y systemau addysg a gyrfaoedd, roedd codi proffil sectorau coed a choedwigaeth Cymru yn gyffredinol hefyd yn argymhelliad amlwg i wella lefelau cadw a recriwtio.

8.13 Awgrymodd rhai nad oes gan goedwigaeth ymwybyddiaeth gyhoeddus fel diwydiannau cysylltiedig, yn enwedig ffermio, y gellid ei ystyried gan rai fel yr unig ddiwydiant sy'n bwysig i ardaloedd gwledig. Gallai codi ymwybyddiaeth y cyhoedd gynnwys hyrwyddo dealltwriaeth: bod coedwigaeth yn broffesiwn cymhleth a medrus; bod coetiroedd yn amrywiol ac yn gymhleth; bod coedwigaeth a phrosesu pren yn ddiwydiannau hanfodol yn economi Cymru; a bod cyfraniad prosesu coed a choedwigaeth at Sero Net yn hanfodol. Gallai codi ymwybyddiaeth o'r proffil helpu coedwigwyr i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy a allai wella recriwtio a chadw staff.

> "Mae angen i ni wneud i goedwigwyr deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel gweithwyr proffesiynol. Yn Ewrop, mae coedwigaeth yn broffesiwn uchel ei barch sy'n cael ei werthfawrogi gan gymdeithas, ond yn

y DU rydym wedi colli ein cysylltiad diwylliannol â choetiroedd sy'n cael eu rheoli'n weithredol." (Y sector preifat - rheoli coetiroedd)

**Casglu data i wella dealltwriaeth o'r sector**

8.14 Awgrymodd grŵp o ymatebion fod angen casglu data i ddeall y sector yn well er mwyn cefnogi'r gwaith o recriwtio a chadw'r gweithlu. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys:

- Dadansoddiad manwl o wybodaeth am y farchnad lafur
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y sector i asesu anghenion (e.e. anghenion y farchnad goed; effeithiau ar broffidioldeb; anghenion sgiliau a bylchau)
- Asesiadau effaith gweithgarwch presennol

**Defnyddio enghreifftiau o'r tu allan i Gymru**

8.15 Awgrymodd rhai ymatebion ei bod yn werth dysgu o enghreifftiau o ddulliau gweithredu y tu allan i Gymru. Roedd rhai o'r rhain yn brosiectau yr oedd yr ymatebydd yn ymwneud â hwy.

> "Mae materion recriwtio a chadw yn y diwydiannau coedwigaeth a phren yn faterion cyfarwydd mewn rhannau eraill o'r DU, felly mae'n ddoeth cysylltu â gweinyddiaethau eraill, e.e. yn ddiweddar mae Defra wedi lansio Cynllun Sgiliau Sector a allai fod â chynnwys defnyddiol a allai fod yn berthnasol yng Nghymru." (Trydydd sector - corff anllywodraethol amgylcheddol)

8.16 Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys:

- Mae'r heriau recriwtio, cadw a hyfforddi sy'n wynebu diwydiannau coedwigaeth a phren Cymru yr un fath â'r rhai a wynebir mewn rhannau eraill o'r DU, felly efallai y byddai'n werth ystyried dulliau gweithredu ledled y DU. Roedd enghreifftiau'n cynnwys: gwaith a wnaed yn yr Alban (e.e. Grŵp Arweinyddiaeth y Diwydiant i hyrwyddo'r sector); Cynllun Sgiliau Sector Defra; Prentisiaeth Coedwigwyr Proffesiynol yn Lloegr; Cymdeithas Melinwyr Pren Caled yr Alban; a FISA)
- Mae heriau recriwtio, cadw a hyfforddi sy'n wynebu diwydiannau coedwigaeth a phren Cymru hefyd i'w gweld ledled Ewrop, felly mae'r arferion gorau ar gael yma (e.e. prosiect RESILIENTWOOD; papur polisi Llwyfan Polisi Pren Ewrop 2024, *Bioeconomi Gylchol ar sail Pren ar gyfer Ewrop Gynaliadwy a oedd ag adran ar Sgiliau ac Addysg*; ac awgrymir bod y Ffindir a Sweden yn enghreifftiau da, heb ymhelaethu)

8.17 Rhoddodd un ymatebydd ymateb manwl a oedd yn awgrymu bod Cymru ar ei hôl hi o gymharu â gwledydd eraill Ewrop oherwydd cyfyngiadau'r mathau o gyllid sydd ar gael.

> "Mae'r sector cynnyrch coedwigaeth yn y DU mewn perygl o lusgo y tu ôl i wledydd Ewropeaidd eraill oherwydd cyfyngiadau'r mathau o gyllid sy'n cael eu cynnig drwy gynghorau ymchwil UKRI. Mae pren yn aml yn cael ei eithrio o alwadau agored EPSRC a BBSRC gan ei fod yn rhy agos at y ffin rhwng y ddau. Er bod cyfle i fusnesau gael gafael ar gyllid i weithio gydag addysg uwch drwy Innovate UK, gall fod meysydd hefyd yn y sector pren a chynhyrchion pren sy'n cael eu hystyried yn ddigyffro, ac felly'n llai tebygol o gael cyllid. Mae ymarferion sganio'r gorwel fel yr un a gomisiynwyd gan

Forestry England ac a adroddwyd yn y papur gan Tew et al. (2023) yn aml yn nodi'r potensial ar gyfer datblygiadau ym maes cynhyrchion pren, neu wrth ddatblygu coed-gemegau, ond mae'r llwybr i'r farchnad ar gyfer y ddau hyn ar drugaredd modelau cyllido a meysydd sy'n cael eu ffafrio ar gyfer cymorth ariannol, neu allu a pharodrwydd cwmnïau i dalu'n uniongyrchol am ymchwil breifat. Byddai llawer o'r cwmnïau llai yn sector coedwigaeth/cynhyrchion coed Cymru yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar y cymorth hwn - er bod cyfleusterau ymchwil a datblygu ar gael fel y Ganolfan Biogyfansoddion ym Mhrifysgol Bangor. O ganlyniad, mae'r Gronfa Arloesi Dichonadwy Deallus (S-FIS) yn ogystal â rhaglenni eraill a gynigir gan Busnes Cymru yn hanfodol i gefnogi datblygiad y sector cynnyrch coedwigaeth." (Sector cyhoeddus - sgiliau)

**Newid cyfansoddiad demograffig y gweithlu**

8.18 Roedd grŵp o sylwadau'n ymwneud â newid cyfansoddiad demograffig y gweithlu coedwigaeth a phren.

8.19 Ymysg y rhain, roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau'n tynnu sylw at y ffaith bod y gweithlu, gan gynnwys contractwyr, yn un sy'n heneiddio. Gyda phrinder gweithlu ifanc â'r sgiliau priodol yn dod i mewn i'r diwydiant, teimlai rhai fod y rhan fwyaf o sgiliau'n cael eu colli drwy ymddeoliadau.

"Mae'r diwydiant yn wynebu gweithlu sy'n heneiddio, a heb weithredu wedi'i dargedu, efallai na fydd cyflenwad digonol o weithwyr newydd hyfforddedig ar gael i gymryd lle pobl sydd wedi ymddeol." (Sector preifat - sgiliau)

"Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn gadael coedwigaeth na'r diwydiant coed i broffesiynau eraill ac eithrio drwy ymddeol, ond mae llawer o bobl wedi ymddeol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae eu holl brofiad wedi cael ei golli." (Y sector preifat - rheoli coetiroedd)

8.20 Nododd rhai ymatebwyr eraill ddiffyg amrywiaeth yn y gweithlu y dylid mynd i'r afael ag ef, gyda rhywedd a chefndir economaidd-gymdeithasol yn cael eu nodi fel meysydd penodol i'w gwella. Awgrymodd un fod llai o amrywiaeth yn y gweithlu gwledig. Tynnodd un ymatebydd sylw at ymchwil yn y maes hwn sy'n cael ei wneud gan RFS a Phrifysgol Bangor.

**Sylwadau eraill**

8.21 Roedd sylwadau eraill yn cynrychioli themâu nad oeddent wedi'u datblygu cystal gan ymatebwyr neu sylwadau a wnaed gan un neu ychydig o bobl yn unig. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol.

8.22 Awgrymodd rhai y potensial ar gyfer archwilio synergeddau â diwydiannau cysylltiedig. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys: synergeddau rhwng coedwigaeth a ffermio i ddatblygu hyfforddiant, sgiliau a recriwtio trawsddisgyblaethol o ffermio a chysylltiadau â'r diwydiant bio-olosg i gynyddu cyflogaeth.

8.23 Roedd rhai yn canolbwyntio'n benodol ar yr angen i ddatblygu neu ehangu capasiti'r sylfaen contractwyr. I rai, roedd cynyddu sgiliau yn y sylfaen contractwyr yn ymwneud ag amnewid sgiliau a gollwyd drwy weithlu sy'n heneiddio a diffyg contractwyr â'r sgiliau priodol.

> “Y cyfle i ddatblygu sylfaen o gontractwyr sydd â'r sgiliau, yr offer a'r entrepreneuriaeth i ddatblygu modelau cynhyrchiol a sensitif ar gyfer rheoli coetiroedd llai/ llydanddail/ar ffermydd, gan arfogi'r sector prosesu a thu hwnt i ddefnyddio'r ystod ehangach o rywogaethau a meintiau pren a fyddai'n debygol o ddeillio o adnodd coedwig sy'n fwy amrywiol o ran rhywogaethau a strwythur.” (Y sector preifat - cynaeafu a chludo)

8.24 Roedd rhai ymatebion yn tynnu sylw at y ffaith bod ansicrwydd economaidd a chostau gwneud busnes yn gallu bod yn rhwystr i gyflogi staff newydd.

> “Mae'r diffyg cysondeb yn y cyllid ar gyfer creu coetiroedd a'r diffyg sicrwydd o ran cymeradwyo cynlluniau wedi golygu bod ein rhaglenni wedi ffynnu a methu dros gylchoedd cymharol fyr. Nid yw hwn yn amgylchedd gweithredu lle gallwn recriwtio'n hyderus a buddsoddi mewn hyfforddi ein staff. Mae hyn yn effeithio ar ein cyflenwyr, yn enwedig yn y sector contractio yn yr un ffordd yn union." (Y sector preifat - rheoli coetiroedd)

## Pa fylchau sydd yn y ddarpariaeth sgiliau a hyfforddiant coedwigaeth a phren yng Nghymru?

### Ymatebion ar ffurflenni'r ymgynghoriad

8.25 Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gorgyffwrdd â'r ymatebion i gwestiynau eraill ym Mlaenoriaeth 5. Er bod yr ymatebion yn amlinellu bylchau, aeth llawer ymlaen i awgrymu rhesymau dros y bylchau hyn ac atebion iddynt. Mae'r rhain i gyd wedi'u crynhoi yma. Er bod rhai ymatebion yn darparu enghreifftiau penodol, crynhoir yr ymatebion yn gyffredinol.

**Nodi bylchau penodol**

8.26 Nododd rhai ymatebion fylchau penodol mewn sgiliau. Roedd rhai ymatebion yn trafod bylchau mewn sgiliau gweithlu tra bod eraill yn trafod bylchau mewn hyfforddiant yn fwy uniongyrchol.

8.27 Dywedodd ymatebwyr yn aml eu bod yn teimlo bod diffyg sgiliau priodol ymysg y gweithlu a'r sylfaen contractwyr. Roedd bylchau penodol mewn sgiliau, a rhai yn cael eu crybwyll mewn mwy nag un ymateb, yn cynnwys:

- Bylchau mewn gwybodaeth am goedwigaeth lydanddail oherwydd ofn gweithio â choed llydanddail brodorol ar gyfer pren
- Diffyg cyrsiau arbenigol ar gyfer technolegau sy'n dod i'r amlwg (e.e. prosesu pren yn gynaliadwy; technegau rheoli coedwigoedd uwch)
- Diffyg gwybodaeth am reoli rhywogaethau pren gwerth uwch
- Diffyg gwybodaeth am gynllunio a dylunio ar gyfer CCF
- Diffyg gwybodaeth am ddulliau a thechnegau mwy traddodiadol ac effaith isel (e.e. torri a thrin coed â cheffylau)
- Diffyg gwybodaeth am y gallu i wrthsefyll yr hinsawdd
- Diffyg gwybodaeth am ecoleg coedwigoedd ac ecoleg cynefinoedd naturiol/lled-naturiol eraill sy'n bodoli yn amgylchedd y goedwig

- Diffyg sgiliau a gwybodaeth am arferion gorau a chynnyrch sydd wedi cael eu datblygu drwy brofiad
- Diffyg sgiliau wrth ddefnyddio offer trwm a pheryglus (e.e. llifiau cadwyn)
- Technegau adeiladu pren uwch
- Rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy
- Offer digidol (e.e. GIS)
- Dim hyfforddiant safonol ar ddefnyddio melin yn ddiogel
- Coedwriaeth
- Rheoli coetiroedd
- Angen mwy o blanwyr
- Angen mwy o Reolwyr Gwaith Coedwig
- Marcio coed wrth reoli coedwigoedd ag oedrannau amrywiol
- Diffyg gwybodaeth am sut i dyfu, rheoli a marchnata rhywogaethau pren gwerth uwch
- Rheoli pren caled yn y tymor hir
- Adnabod clefydau
- Diffyg dealltwriaeth o fanteision defnydd cyhoeddus o goetiroedd
- Sgiliau busnes cyffredinol (rheoli iechyd a diogelwch; gweinyddu busnes)

8.28 Dywedodd un ymateb ei fod yn poeni bod y diffyg sgiliau'n golygu nad yw'r gweithlu presennol yn addas ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, nid ydynt wedi'u harfogi i fodloni gofynion y diwydiant a safonau amgylcheddol yn y dyfodol.

**Rhesymau dros fylchau mewn sgiliau**

8.29 Roedd rhai ymatebion yn awgrymu rhesymau dros fylchau mewn sgiliau. Roedd yr ymatebion hyn yn cynnwys:

- Diffyg cyrsiau hyfforddi arbenigol, modern a phriodol ar gyfer dysgwyr a'r gweithlu gan gynnwys y sylfaen contractwyr
- Diffyg cynrychiolaeth o goedwigaeth a phren mewn cwricwla ysgol
- Dim digon yn manteisio ar rywfaint o'r hyfforddiant sydd ar gael, tra adroddir bod rhai yn orlawn (prentisiaeth lefel gradd y Comisiwn Coedwigaeth)
- Mae'n anodd cyflwyno rhai o'r cyrsiau perthnasol sy'n ddrud ac yn isel o ran niferoedd (e.e. FMO)
- Mae bylchau gwybodaeth mewn cyrsiau (e.e. nid yw Gweithredwyr Peiriannau Coedwigoedd yn dysgu am goedwriaeth; ystyrir coedwigaeth mewn ysgolion fel pryder amgylcheddol yn hytrach na mater diwydiannol/technolegol)
- Mae gormod o fwlch rhwng y sectorau coedwigaeth a ffermio, o ran gweithio traws-sector a gwahanu gwybodaeth a sgiliau ar gyfer y ddau yn ystod hyfforddiant
- Gall yr amgylchedd gwaith ddatgymell rhai pobl (gweler y cwestiwn blaenorol). Gall hyn hefyd leihau nifer y bobl hyfforddedig sy'n ymuno â'r diwydiant sy'n cael eu cadw

- Mae bylchau daearyddol mewn lleoliadau hyfforddiant yn golygu nad yw'n hawdd i bawb gael mynediad at gyrsiau hyfforddi
- Gall fod yn anodd i fusnesau bach a chanolig gyfiawnhau hyfforddi newydd-ddyfodiaid oherwydd costau a risgiau
- Mae gwahaniaethau yng nghyd-destunau cyllido gwahanol ddarparwyr hyfforddiant a llwybrau hyfforddi yn annheg

**Atebion a gynigir i fylchau mewn sgiliau**

8.30 Yn olaf, cynigiodd rhai ymatebwyr atebion penodol i fylchau mewn sgiliau a nodwyd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Datblygu mwy o hyfforddiant a hyfforddiant gwell (e.e. datblygu canolfannau hanfodol ar gyfer addysg a hyfforddiant)
- Hyrwyddo pren yn well fel llwybr gyrfa a'r hyfforddiant sydd ar gael i helpu i ymuno â'r diwydiant
- Llwybrau a chyfleoedd datblygu gyrfa gwell i'r rheini yn y diwydiant a hyrwyddo'r rhain
- Partneriaethau cryfach rhwng addysg a diwydiant i ddarparu profiad ymarferol a llwybrau gyrfa
- Mwy o brentisiaethau sy'n benodol i'r diwydiant
- Mwy o ffocws ar hyfforddiant sgiliau i fusnesau bach (e.e. sgiliau sy'n benodol i goedwigaeth; iechyd a diogelwch; rheoli busnes)
- Gwella mynediad at hyfforddiant i grŵp mwy amrywiol o ddysgwyr
- Mwy o gefnogaeth i ddiwydiannau/meysydd penodol i gynyddu cyflogaeth ynddynt (e.e. melinau bach; cynhyrchwyr bio-olosg)
- Cyllid i gefnogi darparwyr hyfforddiant (e.e. teithio a llety; prentisiaethau â thâl; grantiau i gefnogi contractwyr i hyfforddi staff)
- Buddsoddi mewn rhagor o hyfforddwyr o ansawdd da i ateb y galw a ragwelir
- Casglu data gan ddarparwyr hyfforddiant i helpu i ganfod bylchau a meysydd i'w gwella mewn hyfforddiant
- Gweithgaredd i helpu i sicrhau bod dysgwyr yn barod ar gyfer y diwydiant (e.e. digwyddiadau DPP; mentora; hyfforddiant)
- Darparu arweiniad a chefnogaeth glir i ddysgwyr er mwyn hyrwyddo a hwyluso mynediad i'r sector (gweler yr ymatebion i'r cwestiwn diwethaf)
- Cydweithio ar draws gwledydd
- Cynyddu amrywiaeth yn y gweithlu
- Creu economïau cylchol lleol
- Naratif cenedlaethol clir o'r sector coedwigaeth a choetir gyda chefnogaeth wleidyddol
- Rhaglen hyfforddiant genedlaethol hirdymor a gefnogir yn ganolog ac a leolir mewn sefydliad cenedlaethol
- Potensial i greu cynllun newydd tebyg i Focus on Forestry First. Mae dileu'r gefnogaeth i hyn wedi cael effaith negyddol ar y sector
- Buddsoddi mewn hyfforddiant i bontio bylchau/annog cysylltiadau rhwng sectorau (e.e. coedwigaeth a ffermio; coedwigaeth ac adeiladu)

- Buddsoddi mewn hyfforddiant Martelosgop (mae enghreifftiau da eisoes yn bodoli yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn Ewrop)
- Cyrsiau wedi'u hariannu'n llawn ar gyfer offer trwm a pheryglus (e.e. llif gadwyn)
- Hyfforddiant sy'n mabwysiadu dull cyfannol o reoli coedwigaeth. Drwy beidio â rhannu coetir yn adrannau ar gyfer amcanion gwahanol, gellir gwerthfawrogi cysylltiadau rhwng, er enghraifft, cadwraeth bioamrywiaeth, lliniaru llifogydd a dal ac atafaelu carbon
- Ystyriaeth gryfach o'r ystod eang o gyfleoedd cyflogaeth posibl sy'n deillio o goedwigaeth gynaliadwy ledled Cymru
- Ymchwilio i'r cyfraddau gadael ar ôl coleg (e.e. pam mae myfyrwyr coedwigaeth yn symud i faes coedyddiaeth)

## Pa gamau sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a mabwysiadu cynnyrch, prosesau a/neu dechnolegau newydd?

### Ymatebion ar ffurflenni'r ymgynghoriad

**Buddsoddi yn y sector**

8.31 Roedd rhai ymatebion yn tynnu sylw at yr angen am fuddsoddiad yn y sector i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynnyrch, prosesau a/neu dechnolegau newydd. Gallai buddsoddi mewn amrywiaeth o sefydliadau a sectorau (e.e. ysgolion, colegau, prifysgolion, gweithgynhyrchwyr, defnyddwyr) gefnogi arloesedd, gan gynnwys cydweithio ar draws sectorau. Mae gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i gyd ran i'w chwarae.

8.32 Roedd awgrymiadau a wnaed gan un neu ddau o ymatebwyr ac na ymhelaethwyd arnynt yn cynnwys: yr angen am ostyngiadau treth (soniwyd yn benodol am gredyd treth ymchwil a datblygu mewn un ymateb); cronfa arloesi; benthyciadau llog isel; grantiau cychwyn busnes a rhyddhad ardrethi busnes ar gyfer busnesau sy'n awyddus i dyfu, buddsoddi ac ehangu.

8.33 Mae angen i arloesedd gael ei gefnogi gan bolisi a strategaeth gyson. Mae ymrwymiad hirdymor cyson yn hanfodol i greu'r hyder i fuddsoddi.

8.34 Roedd rhai ymatebion yn tynnu sylw at yr angen i fuddsoddi yn y gweithlu i gefnogi arloesedd. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn ansawdd a hyfforddiant priodol, gan gynnwys dysgu yn y gwaith (argymhellwyd model hyfforddiant cydgrynhoi gan un ymatebydd a oedd yn ymwneud â'r math hwn o ddull gweithredu) a'r potensial i ofynion hyfforddiant statudol gael eu hystyried. Dywedodd un y bydd cynyddu amrywiaeth yn y gweithlu yn cynyddu gallu'r sector i arloesi. Dywedodd un arall y gallai recriwtio o fannau eraill ysgogi arloesedd yn y sector.

8.35 Gall cymorth ariannol (e.e. grantiau, cyllid) mewn diwydiannau penodol helpu i greu sicrwydd yn y sector, gan gynnwys ynghylch mabwysiadu a defnyddio cynhyrchion, technolegau a phrosesau yn y dyfodol.

8.36 Soniodd rhai am feysydd penodol o'r sector sy'n addas ar gyfer buddsoddi. Bio-olosg a grybwyllwyd amlaf. Awgrym arall oedd yr angen i fuddsoddi ac ymrwymo i faint o bren sy'n dod i'r farchnad gan y bydd hyn yn creu'r amodau ar gyfer rhagor

o fuddsoddiad gan y sector. Trydydd awgrym oedd cefnogaeth ar gyfer prosesu pren ar raddfa fach ac arloesol.

8.37 Awgrymwyd hefyd bod buddsoddi mewn diwydiannau cysylltiedig (e.e. adeiladu), cydweithio ar draws sectorau a thrawsffiniol yn bwysig ar gyfer datblygu technolegau a phrosesau newydd sy'n cyd-fynd ag anghenion y sector.

> “Meithrin cydweithio rhwng cwmnïau adeiladu, y byd academaidd, datblygwyr technoleg a chyrff y llywodraeth. Bydd hyn yn hwyluso cyfnewid gwybodaeth, yn cyflymu datblygu cynnyrch, ac yn sicrhau bod atebion newydd yn ymarferol ac yn cyd-fynd ag anghenion y farchnad.” (Sector preifat - marchnadoedd)

**Buddsoddi mewn technoleg**

8.38 Roedd ymatebion eraill yn canolbwyntio ar fuddsoddi mewn technolegau eu hunain.

8.39 Roedd rhai sylwadau cyffredinol yn awgrymu buddsoddi mewn technoleg heb ymhelaethu. Soniodd un am yr angen am gyllid cyfalaf ac arloesi i helpu i ddatblygu syniadau newydd ac yna eu cyflwyno i'r farchnad.

8.40 Bydd buddsoddi mewn arloesedd technolegol yn helpu i greu cynnyrch newydd y bydd y sector wedyn yn buddsoddi ynddynt ymhellach ar ôl i'r cynnyrch gael ei sefydlu. Gallai Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru chwarae rhan yn y gwaith o dreialu technolegau newydd i ddenu buddsoddiad diweddarach gan y sector preifat. Gallai buddsoddiad ddod ar ffurf cyllid a grantiau a gallai annog cydweithio ar draws sectorau.

> "Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a mabwysiadu cynhyrchion, prosesau a thechnolegau newydd yn y diwydiannau coedwigaeth a phren, dylai Cymru fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu, cynnig cyllid a grantiau ar gyfer arloesi, a meithrin cydweithio rhwng diwydiant, y byd academaidd a'r llywodraeth." (Sector preifat - gweithgynhyrchu a datblygu cynnyrch)

8.41 Mae'n bwysig cefnogi cynnyrch terfynol arloesedd drwy ddarparu hyfforddiant ac addysg ar dechnolegau newydd. Gallai hyn gynnwys datblygu hybiau arddangos rhanbarthol a rhwydweithiau rhannu gwybodaeth. Gallai dosbarthu gwybodaeth sy'n ymwneud â thechnolegau newydd fod yn ddefnyddiol a gallai gynnwys canllawiau technegol ac arferion gorau.

8.42 Byddai cyllid i gefnogi busnesau i fuddsoddi mewn technolegau newydd (e.e. meddalwedd, peiriannau, offer) yn cael ei groesawu. Dylai cymorth fod ar gael hefyd i helpu busnesau i fasnacheiddio arloesedd llwyddiannus.

8.43 Gellid cefnogi arloesi technolegol hefyd drwy: hyrwyddo technolegau newydd; creu prosiectau peilot i brofi arloesedd (Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio Llywodraeth Cymru a grybwyllwyd am ei rôl yn cefnogi prosiectau peilot); cymell busnesau i fabwysiadu atebion cynaliadwy, atebion uwch-dechnoleg; a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phrifysgolion a'u sgil-fusnesau.

8.44 Yn yr un modd â buddsoddi yn y sector yn ehangach, mae angen i'r buddsoddiad mewn technolegau eu hunain gael ei gefnogi gan bolisi a strategaeth gyson i greu'r hyder ar gyfer buddsoddi pellach.

8.45 Soniodd rhai am feysydd penodol o'r sector sy'n addas ar gyfer buddsoddi. Cyfeiriwyd yn bennaf at fio-olosg. Awgrymwyd hefyd y gallai datblygu cynnyrch pren newydd helpu i ddefnyddio pren o ansawdd is.

**Rheoleiddio**

8.46 Roedd rhai ymatebion yn awgrymu bod angen canolbwyntio ar arferion rheoleiddio. Mae'r angen am safonau a rheoliadau clir ar gyfer deunyddiau a thechnolegau newydd yn bwysig. Gallent helpu i sicrhau bod cynnyrch newydd yn bodloni safonau diogelwch, ansawdd a safonau amgylcheddol. Bydd hyn yn rhoi hwb i hyder ac yn ei gwneud yn haws buddsoddi rhagor ynddynt.

## Blaenoriaeth 6: Yn seiliedig ar newid ymddygiad

### Pa gamau sydd eu hangen i wella dealltwriaeth y cyhoedd o goedwigaeth gynhyrchiol?

### Ymatebion ar ffurflenni'r ymgynghoriad

**Cyhoeddusrwydd a chyfathrebu**

9.1 Er mwyn gwella dealltwriaeth y cyhoedd o goedwigaeth gyhoeddus, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn canolbwyntio'n drwm ar bwysigrwydd cyfathrebu ac ymwneud â'r cyhoedd ynghylch rôl coetiroedd fel cnwd a'u manteision economaidd i Gymru.

9.2 Cyfeiriodd rhai at ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, i dynnu sylw at fanteision amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy.

> “Mae angen i Lywodraeth Cymru ddweud gyda llais clir ac uchel bod coedwigaeth yn rhywbeth cadarnhaol, yn dda i'r economi, i'r amgylchedd ac i Gymru. Mae angen gwell cyhoeddusrwydd ac addysg ynghlwm wrth bwynt 5 uchod ynghylch manteision defnyddio pren yng Nghymru, yn amgylcheddol ac yn garbon niwtral.” (Sector preifat - amaethyddiaeth / Sector preifat - rheoli coetiroedd)

> “Ymgyrch gyhoeddusrwydd gadarn yn canmol manteision tai fforddiadwy wedi'u hadeiladu â phren, gyda gwybodaeth yn cael ei harddangos i'r cyhoedd ar bob safle lle mae adeiladau o'r fath yn cael eu codi. Byddai'r agweddau cadarnhaol ar ddefnyddio pren, gan gynnwys ei rôl o ran lliniaru newid yn yr hinsawdd, a lle bo'n bosibl, gwybodaeth am ble cafwyd gafael ar y pren, yn helpu i addysgu'r cyhoedd am y defnydd o goedwigaeth gynhyrchiol a manteision cynyddu'r gorchudd coedwigaeth.” (Unigolyn)

**Mynd i'r afael â chamddealltwriaeth a chanfyddiadau negyddol**

9.3 Yn benodol, teimlai llawer o ymatebwyr ei bod yn bwysig addysgu'r cyhoedd ynghylch pam mae coed yn cael eu cwympo a sut mae coetiroedd yn cael eu dynodi'n fasnachol er mwyn lleihau canfyddiadau negyddol a chamddealltwriaeth o'r diwydiant. Tynnodd rhai sylw at enghreifftiau o ymgyrchoedd presennol ar y pwnc hwn.

> “Yr ymgyrch 'Coed ar gyfer Pren' a lansiwyd yn ddiweddar gan y Comisiwn Coedwigaeth yw'r union fath o fenter sydd ei hangen - estyn allan at y cyhoedd yn ehangach ac esbonio pam mae angen i ni dyfu (mwy) o goed ac yna eu torri i lawr! Ac ailblannu, wrth gwrs. Mae gan goedwigaeth gynhyrchiol stori wych i'w hadrodd ac mae angen i ni gael yr hyder i fynd allan a'i hadrodd.” (Cydffederasiwn Diwydiannau Pren)

> “Mae diffyg cysylltiad rhwng canfyddiad y cyhoedd o goedwigaeth, a gwybodaeth am y rôl y mae pren yn ei chwarae yn eu bywydau. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn deall bod y rhan fwyaf o goed yng Nghymru yn cael eu rheoli fel cnwd, yn debyg i gnwd amaethyddol. Mae hyn yn gofyn am fwy o gyfathrebu gan y sector cyfan. Mae ymgyrchoedd fel Wood for Good (ymgyrch hyrwyddo coed y DU sy'n ymgyrchu ar ran y diwydiant pren cyfan

yn y DU) yn gwneud gwaith da ond mae angen eu hyrwyddo'n well.” (Y sector preifat - rheoli coetiroedd)

9.4 Ar ben hynny, cyfeiriodd rhai ymatebwyr at gamau gweithredu a allai hefyd helpu i fynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol, gan awgrymu lleihau'r hyn a oedd, yn eu barn nhw, yn llwyrgwympo niweidiol neu annymunol, neu ddarparu negeseuon lleol gwell pan fydd hynny'n digwydd i egluro pam.

“Gall cyfathrebu cyfyngedig (fel arwyddion gwael neu gyhoeddi negeseuon ar-lein) cyn gweithgareddau cwympo coed arwain at ymatebion negyddol lleol. Byddai creu mwy o gyfleoedd i bobl leol ymgysylltu â'u coetiroedd cynhyrchiol agosaf, yn ogystal â chyfleoedd addysg, yn helpu i liniaru'r ymatebion hyn.” (Sector preifat - melinwyr a chynhyrchwyr)

**Addysg ehangach**

9.5 Yn ogystal â chyhoeddusrwydd uniongyrchol i'r sector, awgrymwyd yn gyffredin bod angen addysg ehangach ar bynciau fel bioamrywiaeth, lleihau carbon, a rhyng-gysylltiad yr elfennau hyn â choedwigaeth. Roedd yr awgrymiadau cyffredin yn cynnwys gwreiddio hyn yng nghwricwlwm Cymru.

“Bydd yn cymryd amser i newid dealltwriaeth y cyhoedd o goedwigaeth gynhyrchiol ond mae angen y newid hwn er mwyn i goedwigaeth ffynnu yn y tymor hwy. Gall ysgolion ac addysg coedwigoedd y blynyddoedd cynnar chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddechrau newid canfyddiad y cyhoedd o goedwigaeth gynhyrchiol, a dylent wneud hynny.” (Trydydd sector - corff anllywodraethol amgylcheddol)

“Integreiddio Coedwigaeth i'r Cwricwlwm: Datblygu Cwricwlwm:

- Gweithio gydag awdurdodau addysg i ddatblygu modiwlau sy'n cynrychioli coedwigaeth y DU yn gywir, gan dynnu sylw at y gwahaniaethau, o faterion byd-eang fel datgoedwigo mewn coedwigoedd glaw.
- Rhaglenni Ysgol y Goedwig: Mae rhaglenni fel Ysgol y Goedwig yn cynnig profiadau dysgu ymarferol mewn lleoliadau naturiol, gan helpu plant i gysylltu â natur a deall arferion coedwigaeth cynaliadwy.”

(Sefydliad aelodaeth / corff cynrychioliadol - sectorau lluosog)

“Mae'n hanfodol codi ymwybyddiaeth o fanteision coed a choetiroedd drwy'r cwricwlwm, drwy'r sector ffermio a gweithgareddau eraill ar y tir, yn ogystal â chydnabod yr angen i arallgyfeirio cyfranogiad yn y sector. Bydd prif ffrydio Atebion sy'n Seiliedig ar Natur i'r heriau niferus rydyn ni'n eu hwynebu yn cyfrannu rhywfaint at wella ymddygiad sydd o blaid yr amgylchedd, a mwy o gefnogaeth i economi sy'n seiliedig ar goed yng Nghymru” (Trydydd sector - cyrff anllywodraethol amgylcheddol)

9.6 Roedd nifer fach o sylwadau'n awgrymu cynyddu coetiroedd mewn amgylcheddau trefol i ehangu addysg am fanteision a phwysigrwydd coedwigoedd.

“Er mwyn gwella dealltwriaeth o'r diwydiant, bydd angen mwy o goetiroedd trefol sy'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol. Er nad ydynt yn cefnogi diwydiant coed yn uniongyrchol, bydd y coetiroedd trefol hyn, serch hynny, yn helpu i argyhoeddi ein poblogaeth drefol o fanteision coed ac yn helpu i

sicrhau bod cynnydd mewn coetiroedd a chynnyrch pren yn cael ei dderbyn. Dangoswyd hefyd bod coetiroedd trefol yn dod â manteision enfawr i gymunedau trefol (gweler Coetiroedd i Gymru).” (Unigolyn)

9.7 Ar ben hynny, awgrymodd rhai y gallai ffermwyr yn benodol elwa o gyfathrebiadau penodol.

> “Dylid egluro'r manteision o ran natur ac addasu i'r hinsawdd hefyd, ac i dirfeddianwyr. Mae deall sut y gall coed a choetiroedd gael eu cynllunio a'u defnyddio gan ffermwyr eu hunain, mewn ffyrdd sy'n cefnogi cynaliadwyedd economaidd busnes y fferm yn uniongyrchol, yn debygol o fod ymhlith y ffyrdd gorau o gymell ymgysylltu.” (Y trydydd sector - rheoli coetiroedd & Y trydydd sector - chyrff anllywodraethol amgylcheddol)


> “Datblygu astudiaethau achos o enghreifftiau o ffermwyr yn ymarfer coedwigaeth gynhyrchu yn llwyddiannus mewn ffordd gadarnhaol, gan gadw uniondeb eu ffermydd a dileu'r camargraff o golli ffermydd teuluol.” (Sefydliad aelodaeth / corff cynrychioliadol - sectorau lluosog)

## Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i sefydlu Grŵp Arwain y Diwydiant yng Nghymru?

### Ymatebion ar ffurflenni'r ymgynghoriad

9.8 Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys dau gwestiwn caeedig (ie/na). Nid oedd ymatebion a gafwyd drwy e-bost bob amser yn nodi'n benodol ymateb ie/na wrth roi sylwadau. Dim ond os oedd eu hymateb yn ddiamwys y cafodd yr ymatebion eu codio fel 'ie' neu 'na' (e.e. roedden nhw'n dweud yn glir eu bod yn cefnogi'r cynigion neu'n dweud 'ie' ar ddechrau eu sylwadau). Cafodd sylwadau a oedd yn cynnig cefnogaeth amodol neu a oedd yn amwys eu marcio fel 'heb ateb' i'r cwestiwn caeedig, ond cafodd eu hymatebion ysgrifenedig eu cynnwys yn y dadansoddiad thematig.

**Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i sefydlu Grŵp Arwain y Diwydiant yng Nghymru?**




Sylfaen: 120 (ymatebwyr a atebodd gwestiynau'r ffurflen ymgynghori)

9.9 Yn gyffredinol, roedd bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynnig i sefydlu Grŵp Arwain y Diwydiant yng Nghymru (63%). Roedd tua un o bob deg (12%) yn gwrthwynebu'r cynnig, ac nid oedd chwarter (25%) wedi ymateb i'r cwestiwn.

## Os ydych, pa werth ychwanegol fyddai'r rôl yn ei gynnig i'r sector coedwigaeth yng Nghymru?

9.10 Gwnaeth llawer o ymatebwyr sylwadau cefnogol ar y cyfan ynghylch y posibilrwydd o sefydlu Grŵp Arwain y Diwydiant. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hyn yn gweld y rôl yn dylanwadu'n gadarnhaol ar y canlynol:

- Hyrwyddo / codi proffil y diwydiant, yn wleidyddol ac ymysg y cyhoedd
- Cynrychioli anghenion, buddiannau a llais y diwydiant
- Cydlynu (e.e. cefnogi cydweithio rhwng sectorau sy'n ymwneud â choedwigaeth a Cyfoeth Naturiol Cymru)
- Gwella arferion, er enghraifft drwy gysylltu â gwledydd y DU neu hyrwyddo arferion gorau rhyngwladol, darparu arweiniad a hyfforddiant, a chyfrannu at bolisïau
- Monitro cynnydd tuag at gyflawni nodau'r Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren

9.11 Er mwyn i'r grŵp gyflawni'r effeithiau cadarnhaol hyn, roedd rhai ymatebwyr yn amodi eu hymatebion gydag argymhellion ynghylch sut dylai'r grŵp weithredu.

9.12 Y mwyaf niferus ymysg y rhain oedd y byddai angen arbenigedd digonol ar y grŵp, gan gynnwys mewnbwn gan y rheini sydd â phrofiad o weithio yn y byd go iawn yn y sector. Roedd hyn yn golygu cynnwys amrywiaeth eang o arbenigedd a phrofiad, a sicrhau nad yw'r grŵp yn cael ei ddominyddu gan un diddordeb penodol. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys y canlynol: cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus a phreifat; y rheini o gefndiroedd coedwigaeth, prosesu ac adeiladu; y rheini o sectorau cysylltiedig (ffermio, natur, dŵr, adeiladu, ac ati); cyrff y diwydiant; undebau llafur; gweithredwyr bach.

> "Dylai gael ei arwain gan y diwydiant gyda chynrychiolwyr o bob rhan o'r gadwyn gyflenwi pren, a dylai gynnwys y sectorau preifat a chyhoeddus a chyrff anllywodraethol." (Trydydd sector - corff anllywodraethol amgylcheddol)

> "Dylid canolbwyntio'r aelodaeth ar uwch reolwyr busnes profiadol o bob rhan o'r gadwyn gyflenwi pren lawn" (Unigolyn)

9.13 Teimlai eraill fod angen i'r grŵp gael amcanion a chylch gorchwyl clir wedi'u cyfleu'n dda, gan gynnwys targedau, mecanweithiau atebolrwydd a monitro cynnydd tuag at nodau.

> "Rhaid i'r grŵp gael cylch gorchwyl clir a rhaid i Lywodraeth Cymru/Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn hapus i dderbyn beirniadaeth a pheidio â bod yn groendenau. Rhaid i'r Llywodraeth dderbyn methiant a gyrru drwyddo. Fy mhryder i yw y gallai'r grŵp gael ei weld fel y sector preifat yn datgan yr hyn sy'n amlwg, heb fod yn adeiladol iawn, yn debyg i'r hyn a etifeddwyd gan

Bartneriaeth Fusnes Coedwigoedd Cymru." (Grŵp Velcourt a'r sector preifat - rheoli coetiroedd)

9.14 Serch hynny, mynegodd nifer fach o ymatebwyr bryderon na fyddai'r grŵp yn darparu gwerth am arian, neu y byddai oedi a llusgo o ran y genhadaeth.


"Ydw, ond mae angen... Amcanion Clir a Mesuradwy: Sicrhau bod y grŵp yn gosod nodau clir, mesuradwy gydag amserlenni penodol. Heb dargedau pendant, mae perygl y gallai trafodaethau fynd yn rhy eang neu heb ffocws, a allai arwain at oedi o ran canlyniadau gweladwy." (Unigolyn)

"Cyn belled nad ydynt yn grŵp lobïo ar gyfer y diwydiant sy'n canolbwyntio ar gynnal y sefyllfa bresennol, dylai fod yn ddatblygiad cadarnhaol." (Sector preifat - melinwyr a chynhyrchwyr)

**Pa werth ychwanegol fyddai'r rôl yn ei gynnig i'r sector coedwigaeth yng Nghymru?**

## Ymatebion ar ffurflenni'r ymgynghoriad

**Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i recriwtio Prif Goedwigwr i Gymru?**




Sylfaen: 120 (ymatebwyr a atebodd gwestiynau'r ffurflen ymgynghori)

9.15 Roedd tua hanner yr ymatebwyr (53%) yn cefnogi'r cynnig i recriwtio Prif Goedwigwr i Gymru, ac roedd un o bob pump (20%) yn anghytuno ac ni chafwyd ymateb gan tua chwarter (27%).

## Os ydych, pa werth ychwanegol fyddai'r rôl yn ei gynnig i'r sector coedwigaeth yng Nghymru?

9.16 O ran y gwerth ychwanegol y byddai rôl Prif Goedwigwr i Gymru yn ei gynnig i'r sector coedwigaeth, cododd ymatebwyr i'r ymgynghoriad dair thema amlwg.

**Rôl lysgenhadol / hyrwyddwr y sector**

9.17 Roedd rhai yn gweld rôl bosibl allweddol i'r Prif Goedwigwr o ran hyrwyddo'r sector, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y sector ymysg y cyhoedd a diwydiannau cysylltiedig, a darparu llais cryfach i'r sector i Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU.

> "Gallai rôl arbenigwr coedwigaeth alluogi llais cryfach a allai siarad ar ran y sector a dod â chydbwysedd gwell i ddadleuon am y pwnc." (Unigolyn)

> "Dylai'r rôl newydd arwain at gynnydd yn y defnydd o bren yng Nghymru ynghyd â hyrwyddo'r defnydd o dir ar gyfer plannu coed yn strategol, gwella sgiliau, hyfforddiant, gweithgynhyrchu, cynefino gweithwyr proffesiynol a chydnabyddiaeth y diwydiant i bren o Gymru a'r DU mewn adeiladu cartrefi, a chydnabyddiaeth i hyn gan ddarparwyr yswiriant, rheolaeth adeiladu a gwarantau." (Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi)

**Cydlynu cydweithio**

9.18 Cyfeiriodd rhai at rolau tebyg mewn gwledydd eraill, fel yr Alban, lle'r oedd y rôl wedi bod yn fuddiol yn y capasiti hwn o ran gweithredu safonau.

> "Byddai angen i'r Prif Goedwigwr fod yn benodai anwleidyddol gydag arbenigedd gwirioneddol. Byddent yn gweithredu fel llefarydd ar ran y diwydiant i'r cyhoedd, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru. Ond, mae angen gwreiddio'r rôl mewn 'system' diwydiant pren lle mae mewnbynnau ac allbynnau'n gysylltiedig. Byddai angen i ddeiliad y swydd gynrychioli'r diwydiant cyfan, hyd at ac o bosibl gan gynnwys cynhyrchwyr cynhyrchion pren." (Unigolyn)

**Gweithredu a chyflawni'r strategaeth**

9.19 Cred rhai y dylai'r Prif Goedwigwr fod yn gyfrifol am gyflawni blaenoriaethau'r Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, byddai hyn yn golygu gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau yn y diwydiant, a digon o bwerau i ddal sefydliadau'r sector cyhoeddus, fel Cyfoeth Naturiol Cymru, i gyfrif. Awgrymodd rhai y byddai hyn yn gofyn am rywfaint o annibyniaeth ar Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, er bod eraill yn teimlo y byddai angen i'r Prif Goedwigwr weithio ochr yn ochr â bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru neu fod yn aelod ohono er mwyn sicrhau newid.

> "Dylai'r rôl gynnwys rhyw fath o rôl 'Arolygydd Cyffredinol Coedwigoedd' hanesyddol - sy'n gallu gwneud ymweliadau ac archwiliadau, ac sy'n gofyn am adroddiadau, a chynlluniau 'galw i mewn' gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Dylai eu penodiad fod yn fwy annibynnol ar Gyfoeth Naturiol Cymru na model yr Alban, ac yn nes at gomisiynydd annibynnol.” (Unigolyn)

“Prif rôl y Prif Goedwigwr fyddai darparu cyngor annibynnol i'r gweinidog perthnasol ar broffesiynoldeb coedwigaeth o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru a bod yn gyfrifol am gynnal a sicrhau bod safonau proffesiynol yn cael eu mabwysiadu a'u cymhwyso yn Cyfoeth Naturiol Cymru.” (Unigolyn)

“Dal rheolwr ystadau coedwigoedd y sector cyhoeddus i gyfrif, am gyflawni canlyniadau allweddol y rhaglen.” (Unigolyn)

**Gofynion ar gyfer y rôl**

9.20 Er mwyn hwyluso'r rôl hon, roedd ymatebwyr yn aml yn credu y byddai angen gwybodaeth a phrofiad digonol o'r sector ar yr unigolyn.

"Dylai'r swydd gael ei chyflawni gan goedwigwr sydd â gwybodaeth, profiad a dealltwriaeth o bob agwedd ar y sector." (Sefydliad aelodaeth / corff cynrychioliadol - rheoli coetiroedd)

“Credwn y gallai swydd o'r fath fod yn ddefnyddiol fel y bu mewn gwledydd eraill, e.e. yr Alban. Dylent fod yn goedwigwr proffesiynol, gyda dealltwriaeth gadarn o'r gadwyn gyflenwi gyfan a'r materion sy'n wynebu'r sector.” (Trydydd sector - corff anllywodraethol amgylcheddol)

**Sylwadau eraill**

9.21 Ar wahân i'r sylwadau hyn, cafwyd nifer fach o ymatebion yn dweud bod angen gwybodaeth ychwanegol am gwmpas y rôl er mwyn rhoi sylwadau neu awgrymu a fyddai'r rôl yn angenrheidiol neu'n fuddiol ai peidio.

“Mae gan un eiriolwr dros ddiwydiant coedwigaeth Cymru botensial i uno'r sector, ond nid yw'n glir o'r cynnig sut bydd y swydd hon yn cael ei hariannu, beth fyddai'r penodiad hwn yn ei gyflawni, ac i bwy y byddai'r swydd yn atebol. Er mwyn gwneud penderfyniad priodol ar y cynnig, dylid sefydlu cylch gorchwyl yn gyntaf ynghyd â chyfiawnhad dros y rôl. Dylid ystyried yn ofalus werth Prif Goedwigwr, yn absenoldeb swyddi tebyg i gynrychioli amaethyddiaeth neu dwristiaeth, er enghraifft.” (Y sector cyhoeddus - rheoli coetiroedd)

9.22 Awgrymodd sawl sylw nad oedd angen y rôl o gwbl, ac y byddai'n well gwario adnoddau ar greu/rheoli coetiroedd, neu y byddai'n peri risg o roi pŵer i un safbwynt.

“Mae'n debygol y bydd hon yn swydd sy'n talu'n dda ac y byddai'n well rhoi adnoddau mewn coetiroedd go iawn.” (Unigolyn)

“Rwy'n ofni y gallai darparu rôl o'r fath roi lle blaenllaw i farn un person, ac os yw hyn yn canolbwyntio ar goedwigaeth gynhyrchiol, fel y'i gelwir, yn unig, byddwn yn cynnal yr arfer gwael presennol o gynhyrchu pren anfrodorol gwerth isel.” (Unigolyn)

# Yr Iaith Gymraeg

**Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynigion ar y Gymraeg?**

- **Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?**
- **Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol?**

## Ymatebion ar ffurflenni'r ymgynghoriad

**Natur wledig a'r iaith Gymraeg**

10.1 Roedd nifer sylweddol o'r cyflwyniadau'n tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng poblogaethau gwledig yng Nghymru a'r Gymraeg. Teimlai ymatebwyr fod cymunedau gwledig yn fwy tebygol o gynnwys siaradwyr Cymraeg ac o weithio mewn sectorau sy'n ymwneud â choedwigaeth. O ganlyniad, roedd rhai yn gweld potensial yn y cynigion i gynyddu cyflogaeth ymysg cymunedau gwledig drwy ehangu'r sectorau hyn, ac felly effaith gadarnhaol ar yr iaith.

> "Mae cadarnleoedd y Gymraeg yn bennaf mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru. Mae coedwigaeth yn sector gwledig a bydd diwydiant coedwigoedd ffyniannus yn cael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg drwy gynyddu cyflogaeth wledig a thrwy hynny gadw cymunedau gwledig yn fyw." (Rheoli coetiroedd)

10.2 Credai rhai y byddai hyn yn cael yr effaith o leihau nifer y siaradwyr Cymraeg, ac yn enwedig pobl ifanc, sy'n chwilio am waith mewn ardaloedd lle mae'r defnydd o'r Gymraeg yn is, ac ar draws y ffin yn Lloegr. Awgrymwyd y byddai diwydiant pren ffyniannus yng Nghymru yn arwain at gymunedau cydlynol a sefydlog o siaradwyr Cymraeg yn aros yn eu cymunedau, gan helpu i gadw'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. Roedd nifer fach o'r ymatebion hyn yn tynnu sylw at y ffaith y gallai hyn gael yr effaith gadarnhaol fwyaf drwy annog gweithredwyr bach sydd wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau.

> "Bydd yr holl uchelgeisiau a chyfleoedd yn y strategaeth hon, yn ddiofyn, yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn gadarnhaol, drwy gynnig cyflogaeth fwy medrus yn ein cymunedau gwledig gan ganiatáu ar gyfer cymuned gydnerth a chydlynol - mae hyn wedi bod yn fudd amlwg i gymdeithas ar ôl y rhyfel gyda'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru yn cyflogi ac yn hyfforddi gweithlu i sefydlu ein coedwigoedd heddiw yn ein hardaloedd gwledig, gan ganiatáu i gymunedau a theuluoedd Cymraeg aros yn eu rhanbarthau eu hunain." (Unigolyn)

10.3 Roedd lleiafrif o'r ymatebion yn gweld cyfle i ffermwyr Cymru - grŵp arall â rhuglder da yn y Gymraeg - ychwanegu at eu hincwm drwy waith coedwigaeth a chynhyrchu pren.

**Annog y defnydd o'r Gymraeg yn y sector**

10.4 Gwnaeth nifer fach o ymatebwyr gynigion i annog y defnydd o'r Gymraeg ar draws y sector. Roedd y rhain yn cynnwys annog defnydd o'r Gymraeg mewn deunyddiau

neu ddelweddau disgrifiadol sy'n gysylltiedig â chynhyrchion pren, a rhoi gwybodaeth Gymraeg yn gyntaf cyn y Saesneg.

10.5 Cafwyd awgrymiadau hefyd i farchnata cynhyrchion pren fel rhai sydd wedi cael eu cynhyrchu yng Nghymru, ac unrhyw ddeunyddiau ymgysylltu â'r cyhoedd i hyrwyddo'r ffaith bod y sector ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Awgrymodd nifer fach o ymatebion y dylid ymestyn hyn i annog y defnydd o enwau coed Cymraeg a thermau gweithredol yn y maes pren, gan gynnwys integreiddio hyn o fewn cyrsiau coedwigaeth mewn prifysgolion a cholegau.

> "Lle bo'n bosibl, dylid annog dysgu am enwau coed Cymraeg a thermau gweithredu Cymraeg ym maes pren. Mae'r cymysgu anffodus rhwng coedwigaeth a gwyddoniaeth Saesneg ei hiaith ym mhrifysgolion Cymru wedi creu bwlch anffodus y mae'n rhaid ei bontio a'i atal gydag agweddau Cymraeg iaith gyntaf cadarnhaol at goedwigaeth Gymreig lle bo hynny'n bosibl. Cynigiwn felly y dylid cynnwys modiwlau Cymraeg ym mhob cwrs coedwigaeth o fewn prifysgolion a cholegau yn ôl y gyfraith i gefnogi'r Gymraeg fel iaith pren gan annog nifer y gweithwyr hunan-gyflogedig yn eu blaen." (Sector preifat - melinwyr a chynhyrchwyr)

10.6 Ar wahân i hynny, awgrymodd rhai y dylid darparu mwy o gyfleoedd i ddysgu Cymraeg, gan gynnwys cyllido dosbarthiadau i'r rheini yn y sector/cymunedau lle mae coedwigaeth yn ffynhonnell amlwg o gyflogaeth.

**Lliniaru effeithiau andwyol**

10.7 Awgrymodd llai o ymatebwyr ffyrdd o liniaru effeithiau negyddol posibl ar y Gymraeg, gyda rhai ymatebwyr yn dweud nad oeddent yn credu y byddai unrhyw beth yn y cynigion yn cael effaith negyddol.

10.8 Roedd y rhai a wnaeth awgrymiadau yn tueddu i ailadrodd pryderon ynghylch yr effaith bosibl ar ffermio a drafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, a sut y gallai hyn effeithio ar y Gymraeg o ganlyniad.

> "At ei gilydd, mae 43% o weithwyr ym maes Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgodfeydd yn siarad Cymraeg o'i gymharu â 17% ar gyfartaledd ar draws yr holl weithwyr yng Nghymru. Y ffigur hwn yw'r ganran uchaf o unrhyw sector. Mae'r dystiolaeth yn ddefnyddiol wrth amlygu rôl ffermio o fewn ein cymunedau o ran gwarchod y Gymraeg. Yn gyffredinol, ein barn gref yw bod ffermydd Cymru ffyniannus yn sail i'r Gymraeg sy'n ffynnu mewn ardaloedd gwledig; bydd unrhyw gynigion sy'n gwanhau'r sector ffermio yn gwanhau ein hiaith Gymraeg yn y pen draw a'r hyn sy'n ein diffinio ni fel pobl a chenedl. Mae ffermio, felly, yn ganolog i ddyfodol y Gymraeg a dylai unrhyw strategaeth sydd â'r nod o gynyddu'r cyflenwad pren yng Nghymru roi blaenoriaeth i deuluoedd sy'n ffermio a busnesau gwledig yn hytrach na dull gweithredu sy'n arwain at newid eang mewn defnydd tir a pherchnogaeth." (Sefydliad aelodaeth / corff cynrychioliadol - amaethyddiaeth)

10.9 Yn gysylltiedig, mynegodd un ymateb bryderon unigryw y byddai'r strategaeth yn dadrymuso cymunedau gwledig llai, ac awgrymodd y dylid ailystyried y strategaeth drwy lens nod 'Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu' Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; rhoi mwy o ystyriaeth i natur gydgysylltiedig

diwylliant a thir; a gweithredu'r strategaeth drwy fframwaith defnydd tir amlbwrpas integredig wedi'i gyd-ddylunio rhwng pob buddiant tir.

10.10 Roedd eraill yn galw am fwy o gyfleoedd cyflogaeth ymysg cymunedau gwledig, gan nodi prinder gweithwyr yn y sector coedwigaeth yng Nghymru ar hyn o bryd sy'n golygu bod angen cyflogi gweithwyr o'r tu allan i'r cymunedau hyn, sy’n lleihau'r defnydd o'r Gymraeg. Felly, ystyriwyd ei bod yn bwysig creu cyfleoedd i bobl leol, gan gynnwys drwy gynyddu hyfforddiant yn y Gymraeg.

10.11 Roedd awgrymiadau ychwanegol o fesurau lliniaru i Lywodraeth Cymru eu hystyried yn cynnwys:

- Sicrhau cyllid ar gyfer cynyddu dysgu Cymraeg yn y sector coedwigaeth
- Darparu cymorth cyfieithu i gyfieithu safonau/canllawiau diwydiant/canfyddiadau ymchwil i'r Gymraeg
- Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd am bwysigrwydd ffermio/cymunedau gwledig i'r Gymraeg a'i diwylliant

**Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid y cynigion er mwyn:**
- **cael effeithiau cadarnhaol neu ragor o effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**
- **lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

### Ymatebion ar ffurflenni'r ymgynghoriad

10.12 Cafwyd sylwadau gan lai o ymatebwyr i'r ail gwestiwn am y Gymraeg.

10.13 Roedd y rhai a ymatebodd yn tueddu i ailadrodd sylwadau o'r cwestiwn blaenorol, neu ddarparu sylwadau cyffredinol am bwysigrwydd y Gymraeg, yn hytrach nag awgrymu newidiadau i'r cynigion.

10.14 Y thema amlycaf eto oedd y cydgysylltiad rhwng coedwigaeth, cymunedau gwledig a'r Gymraeg, ac y byddai cynigion sy'n ceisio cefnogi neu ehangu'r sector coedwigaeth yn arwain at effeithiau economaidd cadarnhaol i gymunedau gwledig a manteision i'r Gymraeg.

> “Po fwyaf bywiog a gweithgar yw'r sector coedwigaeth yng Nghymru, y gorau i'r Gymraeg a'i diwylliant.” (Rheoli coetiroedd)

10.15 Roedd cyfran fwy yn y cwestiwn hwn yn dweud nad oeddent yn credu y byddai'r cynigion yn effeithio ar y Gymraeg mewn unrhyw ffordd, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol; bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol ar hyn o bryd gan gyrff fel Cyfoeth Naturiol Cymru; neu nad oedd y darpariaethau iaith Gymraeg presennol yn ddigonol i gyflawni hyn.

10.16 Serch hynny, dywedodd un ymatebydd fod Saesneg yn cael ei defnyddio'n aml i hwyluso cyfathrebu rhyngwladol mewn perthynas â rheoli coedwigoedd, a chwestiynu'r disgwyliadau ynghylch sut gellid defnyddio'r Gymraeg mewn cyfathrebu rhyngwladol.

## Sylwadau Pellach

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle hwn i roi gwybod amdanynt.**

11.1 Roedd cwestiwn olaf yr ymgynghoriad yn rhoi lle i unrhyw sylwadau pellach nad oeddent wedi cael sylw yng nghwestiynau'r ymgynghoriad.

11.2 Er bod rhai wedi defnyddio'r gofod hwn i ailadrodd pwyntiau a wnaed yn eu hymatebion cynharach, daeth rhai themâu ychwanegol i'r amlwg:

**Creu trywydd clir**

11.3 Dywedodd nifer o ymatebwyr yr hoffent weld trywydd clir o sut bydd y strategaeth yn cael ei rhoi ar waith yn dilyn yr ymgynghoriad, gan gynnwys rhannu cyfrifoldeb yn glir er mwyn gallu sicrhau atebolrwydd, amserlenni, a sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro.

**Ystyried newidiadau i weithrediad Cyfoeth Naturiol Cymru**

11.4 Er bod y thema hon wedi dod i'r amlwg mewn rhai ymatebion mewn rhannau eraill o'r ymgynghoriad, gwnaed awgrymiadau cyffredinol i newid y ffordd mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu, gan gynnwys:

- Diwygio'r gweithrediadau masnachol yn gorff annibynnol sy'n canolbwyntio'n llwyr ar reoli coedwigoedd
- Cynyddu cydweithio â'r sector preifat, gan ganolbwyntio ar alluogi yn hytrach na chyflawni
- Penodi coedwigwyr neu broseswyr pren ar fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru i wella cynrychiolaeth ac arbenigedd
- Recriwtio a chadw mwy o staff sydd wedi'u hyfforddi ym maes coedwigaeth

**Ystyried polisïau presennol**

11.5 Tynnwyd sylw at amrywiaeth o bolisïau gan ymatebwyr a ddylai, yn eu barn nhw, gael eu hystyried mewn perthynas â'r strategaeth. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Alinio â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, a Bil Bioamrywiaeth (Cymru) sydd ar y gweill
- Ystyried effeithiau ar dirweddau/asedau hanesyddol yn unol â Deddf Amgylchedd Hanesyddol Cymru 2023
- Diffyg eglurder o fewn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gyfer lefelau pori priodol neu ganllawiau ar adfywio
- Rôl y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus o ran caffael pren ar gyfer adeiladu

**Tynnu sylw at feysydd o anghytundeb**

11.6 Defnyddiodd rhai ymatebwyr y cyfle hwn i dynnu sylw at y rhannau o'r ymgynghoriad neu'r strategaeth yr oeddent yn anghytuno â nhw. Roedd yr anghytundebau hyn yn cynnwys:

- Bod y strategaeth bresennol yn cael ei gweld fel un sy'n gogwyddo tuag at bren ac a allai roi deunyddiau a gynhyrchir yn ddomestig fel concrit a sment dan anfantais. Awgrymodd yr ymatebydd hwn y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull gweithredu niwtral o ran deunyddiau ar gyfer datgarboneiddio adeiladu yn lle hynny, gan gefnogi'r holl ddeunyddiau adeiladu carbon isel ac nid pren yn unig

“Rydyn ni'n gwrthwynebu'r uchelgais sy'n sail i'r strategaeth hon yn ôl pob golwg, sef defnyddio pren i “ddisodli” neu “amnewid” concrit fel deunydd adeiladu. Er ein bod yn cefnogi ymdrechion i ddatgarboneiddio'r amgylchedd adeiledig yng Nghymru, rydym yn credu'n gryf y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull gweithredu sy'n niwtral o ran deunyddiau ar gyfer y nod hwn, gan ddarparu cymorth cyfartal i bob deunydd adeiladu carbon isel, gan gynnwys sment a choncrit carbon isel. Mae gan bren le teilwng ym maes adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, ond felly hefyd yr holl ddeunyddiau adeiladu. Os yw Llywodraeth Cymru am lunio strategaeth ar gyfer pren ym maes adeiladu, yna ni ddylid ei hanelu at hyrwyddo un diwydiant ar draul un arall (heb sôn am hyrwyddo diwydiant sydd mor ddibynnol ar fewnforion ar draul un sy'n ddomestig yn bennaf), a dylai Llywodraeth Cymru hefyd lunio strategaethau sydd yr un mor gefnogol ar gyfer deunyddiau adeiladu mawr eraill, fel cynhyrchion mwynol (gan gynnwys sment, concrid, agregau a maen, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny). Byddai hon yn fenter gwerth chweil ar adeg pan all yr holl ddeunyddiau adeiladu mawr - concrit, sment a dur yn ogystal â phren - ddisgwyl mwy o alw oherwydd uchelgeisiau canmoladwy Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfer adeiladu tai a seilwaith sero net.” (Cymdeithas Cynnyrch Mwynol Cymru)

- Blaenoriaethu cynhyrchu pren ar draul buddiannau ecolegol, a diffyg ffocws ar effeithiau posibl ar fioamrywiaeth

“Nid yw dylanwad y diwydiant coed ar fioamrywiaeth Cymru yn cael ei grybwyll yn benodol o gwbl. Rydyn ni mewn argyfwng hinsawdd a natur, ac rwy'n siomedig nad yw'n ystyriaeth. Mae'n hysbys bod rheoli coetiroedd yn gynaliadwy ac mewn ffordd dda yn gallu bod o fudd enfawr i fioamrywiaeth coetiroedd yn gyffredinol, felly a oes mecanwaith cyllido sy'n gallu helpu i gynhyrchu tystiolaeth sy'n dangos yn glir bod coedwigaeth gynhyrchiol o fudd i amrywiaeth rhywogaethau a thoreth o bob math o fywyd gwyllt, o ffyngau i ystlumod ac o fflora coetir i adar ysglyfaethus?” (Y sector cyhoeddus - rheoli coetiroedd)

- Awgrym bod yr ymgynghoriad angen cyfranogiad ehangach gan y cyhoedd na'r rheini yn y diwydiant

“Fy mhryder i gyda'r ymgynghoriad hwn yw mai ychydig iawn o bobl ar wahân i'r rheini sy'n ymwneud yn uniongyrchol â choedwigaeth a'r diwydiannau pren yng Nghymru fydd yn ei ddarllen ac yn rhoi sylwadau arno, er y dylai mewn gwirionedd fod yn destun ymgysylltu llawer ehangach â'r cyhoedd.” (Sector preifat - arall)

- Beirniadu bylchau ac anghywirdebau yn y data a ddefnyddiwyd yn yr ymgynghoriad (e.e. blynyddoedd coll mewn graffiau)
- Angen adolygiad mwy cynhwysfawr o'r dystiolaeth ryngwladol ar atafaelu carbon
- Diffyg eglurder cyffredinol ynghylch nod terfynol y strategaeth

11.7 Yn yr un modd, nododd rhai yr hyn roeddent yn credu oedd yn fylchau yng nghynnwys neu strategaeth yr ymgynghoriad yn gyffredinol, neu bryderon eraill:

- Diffyg cyfeiriad at y rôl y gallai bio-olosg ei chwarae drwy holl flaenoriaethau'r strategaeth
- Nid oedd diogelwch yn cael ei ystyried yn rhan benodol o'r strategaeth i wella'r diwylliant diogelwch yn y sector
- Pryder y byddai gan rai buddiannau ddylanwad gormodol dros yr ymgynghoriad

**Cynnig arbenigedd**

11.8 Roedd rhai yn dymuno tynnu sylw at bwysigrwydd dull cydweithredol. Dylid nodi hefyd, drwy gydol yr ymgynghoriad, yn ogystal ag yn y cwestiwn hwn, bod rhai unigolion a sefydliadau hefyd wedi cynnig eu harbenigedd i Lywodraeth Cymru, ac eisiau cael yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau, neu eisiau cael eu cynnwys mewn penderfyniadau wrth symud ymlaen.

## Cyflwyniadau

11.9 Yn ogystal â'r ymatebion a oedd yn dilyn fformat y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, rhoddodd chwe ymateb sylwadau ar faterion penodol, a oedd yn ymdrin â'r pynciau canlynol:

- Nodi'r bwriad i gymhwyso'n gymesur egwyddorion y Llyfr Gwyrdd - canllawiau'r Llywodraeth Ganolog ar arfarnu a gwerthuso, wrth ddatblygu'r rhaglenni a/neu'r prosiectau wrth barhau tuag at eu gweithredu

Pwyntiau a ymddangosodd hefyd mewn ymatebion eraill i'r ymgynghoriad, gan gynnwys pwysigrwydd y canlynol:

- Hwyluso busnesau llai i gael gafael ar bren gan Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru, a thynnu sylw at y manteision y mae gweithredwyr bach yn eu cynnig
- Adolygu strategaethau rheoli p. ramorum
- Grantiau i gefnogi rheoli cadwraeth
- Plannu mwy o goed coch / conwydd ar wahân i sbriws Sitka
- Annog a galluogi plannu
- Tynnu sylw at rôl bosibl pren o Gymru o ran adeiladu tai cynaliadwy
- Annog gwneuthurwr ffibr pren yng Nghymru
- Cynyddu addysg am bren (gan gynnwys penseiri ar effeithiolrwydd pren C16) neu werth ehangach coedwigaeth

- Datgymell defnyddio cynnyrch pren oes fer (e.e. decin) a llosgi pren y gellid ei ailddefnyddio

11.10 Rhoddodd dau ymatebydd gyflwyniadau hirach, a oedd yn fanwl ac yn darparu tystiolaeth ategol. Roedd y cyntaf o'r rhain yn canolbwyntio ar Flaenoriaeth 5 ac fe'i crynhoir yn fyr isod:

- Wedi nodi heriau o ran datblygu capasiti'r sector, gan gynnwys diffyg data i lywio camau gweithredu a mesur effaith, diffyg strwythurau cymhwysedd diffiniedig a mecanweithiau cofnodi, a phrinder cynigion hyfforddi ac asesu
- Roeddent hefyd wedi nodi problemau ymarferol gyda hyfforddiant, gan gynnwys anawsterau wrth gyflogi aseswyr a chostau uchel oherwydd cymarebau isel o ran dysgwyr, costau teithio, gofynion o ran peiriannau, cyfleusterau ac offer, a natur wledig
- Roedd bylchau eraill yn y ddarpariaeth hyfforddiant a sgiliau yn cynnwys diffyg hyfforddiant a lefelau 2 a 3, diffyg cynnyrch addysg wedi'u targedu at Reolwyr Gwaith Coedwigoedd, a gostyngiad yn y nifer sy'n ymgymryd ag addysg lefel uwch mewn pynciau sy'n ymwneud â choedwigaeth
- Roedd yr ymateb yn gofyn am adolygiad o'r gweithlu i lywio fframweithiau cymhwysedd, yn awgrymu gwella mynediad dysgwyr ar sail daearyddiaeth, a hyrwyddo'r sector i ddysgwyr, yn debyg i themâu a godwyd yn yr ymatebion i Flaenoriaeth 5 yn y ffurflen ymateb

11.11 Roedd gan yr ail gyflwyniad hir ffocws ehangach na'r blaenoriaethau yn yr ymgynghoriad, a mynegodd:

- Gefnogaeth i weithredu cynllunio defnydd tir
- Mae risgiau ehangach i ecoleg o dwf yn cael blaenoriaeth ar draul cadwraeth a chynaliadwyedd
- Cefnogaeth i ddull gweithredu sy'n harneisio menter gymunedol, yn osgoi cyfalaf menter, ac yn dosbarthu buddion yn deg fel model cynaliadwy
- Potensial cywarch fel cynnyrch amaethyddol ar ei ben ei hun ac fel rhywbeth sy'n ategu pren yn y maes adeiladu
- Cefnogaeth i ystod ehangach o rywogaethau a 'ganiateir' er mwyn sicrhau gwytnwch (e.e. rhywogaethau ewcalyptws)
- Manteision cuddio gweithgareddau llwyrgwympo ar gyfer twristiaeth
- Awgrymiadau penodol ar gyfer paru lleoliadau/amodau a rhywogaethau wrth blannu

## Adborth gweminarau

12.1 Yn ogystal â'r ffurflen ymgynghori, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddwy weminar ar-lein ar 20 a 25 Mawrth. Roedd y gweminarau hyn yn ceisio egluro cynigion yr ymgynghoriad, meithrin trafodaeth drwy sesiynau holi ac ateb, a chyfeirio'r rhai a oedd yn bresennol at y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad.

12.2 Derbyniodd y sesiynau amrywiaeth o sylwadau a chwestiynau, sy'n cael eu crynhoi isod.

12.3 Roedd y cyfraniadau'n tynnu sylw at y canlynol:

- Diffyg cyfeiriad at botensial coedwigoedd trefol yn yr ymgynghoriad
- Fframweithiau cymhwysedd a oedd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd mewn perthynas â Blaenoriaeth 5, yr oedd angen eu hystyried
- Ymholiad ynghylch y trywydd yn dilyn yr ymgynghoriad yng nghyd-destun etholiadau'r Senedd yn 2026, gan gwestiynu a oedd gan y strategaeth ymrwymiad trawsbleidiol
- Y potensial ar gyfer cysylltiadau neu groesebiadau â pholisi ar draws y DU
- Diffyg profiad o goedwigaeth ar lefel bwrdd a gweithrediaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, gan holi a fyddai cyfansoddiad y bwrdd yn rhan o'r ymgynghoriad
- Cwestiynau am rôl y cynllun ffermio cynaliadwy ac amaeth-goedwigaeth yn y strategaeth
- Defnyddio bio-olosg ar gyfer storio carbon, ei botensial i greu swyddi gwyrdd a diwydiant newydd, a chynyddu'r defnydd o docion
- Camsyniadau presennol ynghylch defnyddio pren, pwysigrwydd tynnu sylw at reoli coedwigoedd yn gynaliadwy yn y negeseuon ynghylch defnyddio pren yn gynaliadwy, ac annog y galw am ddefnyddio pren wrth adeiladu

## Prif ystyriaethau ac argymhellion

13.1 Ar draws yr ymgynghoriad, ymddangosodd nifer o themâu craidd yn gryf ac yn gyson ar draws gwahanol feysydd blaenoriaeth. Isod, crynhoir yr ystyriaethau a'r argymhellion allweddol hyn a wnaed gan ymatebwyr o bob rhan o'r ymgynghoriad.

**Creu mwy o goetiroedd a gwella rheoli coetiroedd**

13.2 Gan effeithio'n benodol ar Flaenoriaethau 1 a 2, roedd ymatebwyr yn aml yn dangos cefnogaeth i goedwigo ac yn argymell gwella rheoli coetiroedd ar hyn o bryd er mwyn cynyddu adnoddau coedwigoedd, cynyddu'r cyflenwad pren a ffibr coed, yn ogystal â lleihau'r risgiau i goedwigoedd a achosir gan newid yn yr hinsawdd, plâu a chlefydau.

13.3 Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

- Ystyried rôl Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru yn y dyfodol o ran cyfrannu at gynhyrchu pren yn barhaus
- Cynyddu cynaeafu clystyrau goraeddfed
- Annog mwy o deneuo, gan gynnwys y teneuo cyntaf a chylchoedd teneuo byrrach. Gallai hyn olygu cynyddu capasiti'r gweithlu a thrwyddedau cwympo coed.
- Darparu canllawiau'r llywodraeth a hwyluso cyfnewid gwybodaeth ynghylch gwella cydnerthedd coedwigoedd
- Monitro ac adrodd yn gynyddol am arwyddion cynnar o blâu a chlefydau
- Ystyried hyfforddiant ac ardystiad i gefnogi rheoli coedwigoedd yn well
- Ystyried rôl anifeiliaid, o ran rheoli mamaliaid sy'n pori ac archwilio manteision posibl cyflwyno anifeiliaid ar gyfer iechyd a chynnal a chadw coedwigoedd
- Adolygu strategaethau rheoli phytophthora ramorwm

**Ystyried cymysgedd rhywogaethau**

13.4 Argymhellwyd annog plannu amrywiol er mwyn cynyddu'r gallu i wrthsefyll effeithiau'r hinsawdd, plâu a chlefydau, yn ogystal ag atal y risg o danau'n lledaenu.

13.5 Roedd y sylwadau hefyd yn awgrymu adolygu rhywogaethau cynhyrchiol yn y dyfodol (ar gyfer pren meddal a phren caled) er mwyn sicrhau bod cymysgedd priodol i ateb y galw ymysg gweithgynhyrchwyr a marchnadoedd yn y dyfodol.

**Darparu cymhellion ariannol**

13.6 Argymhelliad cyffredin drwy gydol yr ymgynghoriad oedd yr angen i ddarparu cymhellion i gyflawni nodau blaenoriaeth, gan gynnwys cyllid grant hirdymor o bosibl. Roedd galwadau am gymhellion ariannol yn amrywiol iawn, gan gynnwys opsiynau cyllid cyhoeddus, preifat a chyfunol i gefnogi'r canlynol:

- Cymhellion i ffermwyr er mwyn annog coedwigo ac ardystio
- Grantiau ar gyfer seilwaith, peirianneg neu beiriannau i gael mynediad at bren a'i gludo

- Grantiau wedi'u hanelu at wella rheoli coedwigoedd
- Grantiau wedi'u hanelu at ddatblygu'r gweithlu ymhellach mewn sectorau wedi'u targedu megis melino
- Grantiau wedi’u hanelu at blannu rhywogaethau amrywiol, neu annog plannu brodorol
- Cymhellion treth ar gyfer defnyddio pren wedi'i ailgylchu wrth adeiladu (neu dynnu TAW o bren wedi'i ailgylchu) a/neu gosbau ar gyfer pren newydd/concrit a brics
- Cyllido'r gwaith o ddatblygu cynnyrch/arloesedd pren (e.e. cystadlaethau)
- Cyllid ar gyfer ymchwil i eneteg, bridio coed neu i gefnogi meithrinfeydd
- Grantiau i gefnogi busnesau newydd i annog ailddefnyddio ac ailgylchu
- Cyllid i gefnogi darparwyr hyfforddiant (e.e. gyda theithio a llety, prentisiaethau â thâl, neu i gefnogi contractwyr i hyfforddi staff)

13.7 Awgrymodd eraill, yn hytrach na chymhellion ariannol, y gellid defnyddio caffael yn y sector cyhoeddus fel adnodd i gymell a sbarduno newid, e.e. wrth annog defnyddio pren (ac yn benodol pren o Gymru neu'r DU) ym maes adeiladu.

**Gwneud newidiadau rheoleiddiol**

13.8 Nodwyd rhwystrau rheoleiddiol ar draws y meysydd blaenoriaeth, gan gynnwys cael gwared ar fiwrocratiaeth o ran trwyddedau plannu a thorri coed, gyda nifer fach o ymatebwyr yn tynnu sylw at enghreifftiau penodol o rwystrau.

13.9 Roedd rhai wedi tynnu sylw at reoliadau penodol yr oedd angen i Lywodraeth Cymru eu hystyried, fel y diwygiad Rhan Z i reoliadau adeiladu'r DU.

13.10 Awgrymodd eraill ychwanegu gofynion i wneud y defnydd gorau posibl o ddeunyddiau sydd ar gael drwy: gasglu tocion a changhennau coed wrth gynaeafu i'w defnyddio e.e. mewn bio-olosg; gwneud gwneuthurwyr cynnyrch pren yn gyfrifol am gynnyrch y tu hwnt i'w defnydd cychwynnol; targedu rheoliadau at ddiwydiannau penodol sy'n cynhyrchu gwastraff coed.

13.11 Awgrymwyd diweddaru safonau adeiladu a diwygio manylebau pren technegol. Yn benodol, teimlai nifer o ymatebwyr y dylid dylunio prosiectau adeiladu newydd ar gyfer datgymalu ac ailddefnyddio.

13.12 Yn fwy cyffredinol, byddai safonau a rheoliadau clir ar gyfer deunyddiau a thechnolegau newydd yn helpu i sicrhau bod cynhyrchion pren newydd yn bodloni safonau diogelwch, ansawdd ac amgylcheddol.

**Ystyried newidiadau i weithrediad Cyfoeth Naturiol Cymru**

13.13 Yn gysylltiedig â hyn, cafwyd awgrymiadau drwy gydol yr ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch ystyried newidiadau i weithrediad Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys: hwyluso mynediad at barseli i broseswyr a gweithredwyr ar raddfa fach; diwygio gweithrediadau masnachol yn gorff annibynnol sy'n canolbwyntio'n llwyr ar reoli coedwigoedd; ffurfio adran gwerthu a marchnata masnachol ar gyfer coedwigaeth; cynyddu'r cydweithio â sectorau

coedwigaeth a sectorau cysylltiedig fel adeiladwyr tai; penodi coedwigwyr/proseswyr coed i fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru; cynyddu recriwtio a chadw staff sydd wedi'u hyfforddi ym maes coedwigaeth.

**Cefnogi gweithredwyr bach**

13.14 Roedd ymatebwyr yn aml yn gweld cyfleoedd i gefnogi gweithredwyr llai ar draws y meysydd blaenoriaeth, gan gynnwys potensial melinau llifio a phroseswyr bach i ehangu mynediad at goetir fferm, er mwyn cynyddu ymatebolrwydd i alw'r farchnad a bod o fudd i gymunedau lleol.

13.15 Er mwyn hwyluso mynediad at weithredwyr bach, cafwyd argymhellion i hwyluso marchnata gwerthiant pren parseli bach gan Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru drwy Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â sefydlu iardiau gwerthu pren o goetiroedd preifat.

**Cymunedau gwledig**

13.16 Ymddangosodd y berthynas rhwng cymunedau gwledig, y sector ffermio a choedwigaeth mewn ymatebion i'r ymgynghoriad. Yn fwyaf cyffredin, roedd ymatebwyr yn gweld cyfle i fod o fudd i gymunedau gwledig drwy ehangu diwydiannau pren sy’n lleol iddynt. Byddai hyn hefyd yn darparu cyfleoedd i gryfhau'r Gymraeg drwy gadw cymunedau gwledig gyda'i gilydd a lleihau'r angen i siaradwyr Cymraeg symud a gweithio y tu allan i'w cymunedau, i ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn llai aml. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr hefyd yn gweld bylchau daearyddol yn y ddarpariaeth hyfforddiant fel rhwystrau i'r sector.

13.17 Fel rhan o'r ystyriaeth i gymunedau gwledig, awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cryfhau'r cyfathrebu â ffermwyr, yn enwedig ynghylch cystadleuaeth defnydd tir os yw'n awyddus i ehangu Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru. Nododd rhai ymatebwyr bod ffermwyr yn grŵp penodol sy'n amheus o goedwigaeth, ac sydd felly angen mwy o ymgysylltu.

**Gwella ymwybyddiaeth ac addysg am y sector**

13.18 Cafwyd nifer o argymhellion drwy gydol yr ymgynghoriad i gynyddu addysg ymysg y cyhoedd am rôl coetiroedd fel cnwd, eu cysylltiad â bioamrywiaeth a'r hinsawdd, a manteision economaidd pren i Gymru. Roedd hyn yn cynnwys mynd i'r afael â chamddealltwriaeth a chanfyddiadau negyddol (e.e. ynghylch torri coed a defnyddio pren yn y diwydiant adeiladu) drwy farchnata pren a chynhyrchion pren o Gymru yn well. Argymhellodd rhai y dylai Llywodraeth Cymru arwain y gwaith hwn o addysgu a chodi ymwybyddiaeth, gyda rhai'n argymell ymgorffori'r addysg hon yn gyffredinol yng nghwricwlwm Cymru. Roedd eraill hefyd yn argymell negeseuon lleol a chodi ymwybyddiaeth wedi'u hanelu at gymunedau y gallai gweithgareddau cynaeafu coed effeithio arnynt.

13.19 Cafwyd argymhellion hefyd i gyfeirio gwaith codi ymwybyddiaeth at sectorau penodol sy'n ymwneud â phren, fel adeiladwyr tai, datblygwyr, penseiri, peirianwyr a thirfeddianwyr ac, yn benodol, ffermwyr.

### Gwella'r gweithlu

13.20 Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o'r sector ymysg y cyhoedd, cafwyd nifer o awgrymiadau drwy gydol yr ymatebion ynghylch datblygu'r gweithlu, a'r naill a'r llall yn ymwneud â chynyddu maint a sgiliau'r gweithlu.

13.21 Roedd yr argymhellion i ehangu gweithlu'r dyfodol yn cynnwys hyrwyddo pren yn gyffredinol yn ogystal â diwydiannau penodol y mae galw amdanynt fel llwybrau gyrfa mewn ysgolion, a gwella mynediad at addysg a hyfforddiant sydd ar gael i ddysgwyr, ac ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant hwnnw.

13.22 Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod hwn yn llwybr gyrfa deniadol, awgrymodd rhai fod angen mynd i'r afael ag amodau gwaith, fel diffyg tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig lle mae swyddi coedwigaeth wedi'u lleoli, amgylchedd gwaith, cost hyfforddiant, a chyflogau isel. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys cyflogau cystadleuol drwy godi cyflogau, tai fforddiadwy, ymdrechion i wella bodlonrwydd mewn swydd, sefydlogrwydd a sicrwydd, yn ogystal â chyllid ar gyfer hyfforddiant.

13.23 Yn y cyfamser, nododd ymatebwyr nifer o fylchau sgiliau ymysg y gweithlu presennol, ac roeddent yn awgrymu y byddai'r rhain yn dod yn fwyfwy amlwg yn wyneb gofynion a safonau'r diwydiant yn y dyfodol. Roedd yr atebion arfaethedig i'r bylchau sgiliau hyn yn niferus ac maent wedi'u rhestru'n llawn ym mhrif gorff yr adroddiad. Roeddent yn cynnwys gwella datblygiad proffesiynol a llwybrau gyrfa; partneriaethau a chydweithio rhwng addysg a diwydiant; prentisiaethau; gwella mynediad at hyfforddiant gan gynnwys buddsoddi mewn hyfforddwyr, mabwysiadu dulliau hyfforddi penodol, a chyllido hyfforddiant sgiliau ar gyfer busnesau bach.

### Gwella ymchwil, data a dysgu o arferion gorau

13.24 Awgrymodd ymatebwyr fod angen mwy o ymchwil a datblygu, yn enwedig o ran datblygu/addasrwydd rhywogaethau ar gyfer plannu yn y dyfodol, technegau bridio coed, defnyddio bio-olosg, a datblygu cynnyrch/arloesedd technolegol. Roedd rhai argymhellion yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymrwymiad cyllido hirdymor yn y meysydd hyn, gan gynnwys gan y llywodraeth, yn ogystal â galwadau i feithrin cydweithio a datblygu a chefnogi gweledigaethau hirdymor

13.25 Roedd eraill yn galw am well data a rhagolygon, ynghylch y cyflenwad a'r galw am bren yn y dyfodol, gan nodi addasrwydd tir ar gyfer coedwigo, neu ledaeniad pathogenau.

13.26 Cafwyd nifer o argymhellion i ddefnyddio enghreifftiau o arfer gorau, gan gynnwys edrych ar weddill y DU a gwledydd Ewropeaidd eraill. Roedd hyn yn cynnwys arferion gorau o ran recriwtio a chadw staff, yn ogystal â throsglwyddo gwybodaeth.

13.27 Yn ogystal, tynnwyd sylw at sefydliadau unigol:

- Reseiclo a Chymdeithas Ailgylchwyr Pren ar gyfer arferion gorau ym maes ailddefnyddio ac ailgylchu coed
- Llysfasi (Coleg Cambria), Glynllifon (Grŵp Llandrillo Menai), a Phrifysgol Bangor ar gyfer addysg a hyfforddiant

- Tai ar y Cyd, BSW Group a Kronospan mewn arloesi o ran dylunio a gweithgynhyrchu cynhyrchion pren sydd â mwy o werth, gwydnwch estynedig a gwydnwch hinsawdd

**Grŵp Arwain y Diwydiant a Phrif Goedwigwr**

13.28 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr a ymatebodd drwy'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn cefnogi creu grŵp arwain y diwydiant (63%) a Phrif Goedwigwr Cymru (53%).

13.29 Yn y ddau achos, roedd ymatebwyr yn gweld cyfleoedd drwy greu'r rolau hyn, e.e. ar gyfer codi proffil y sector, gwell cydweithio, a helpu i gyflawni nodau'r Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren.

13.30 Er mwyn sicrhau bod y rhain yn llwyddiannus, awgrymodd ymatebwyr y byddai angen i'r rhai sy'n gysylltiedig feddu ar ddigon o arbenigedd (e.e. profiad o'r byd go iawn yn y sector), rôl wedi'i diffinio a'i chyfleu'n glir, ac y byddai angen cydbwyso neu ystyried buddiannau sy'n cystadlu â'i gilydd.

13.31 Roedd rhai pryderon ynghylch cost bosibl creu rôl y Prif Goedwigwr ac mae rhai yn galw am fwy o eglurder ynghylch cwmpas eu cylch gwaith.

13.32 Yn fwy cyffredinol, roedd rhai ymatebwyr hefyd eisiau trywydd clir gan Lywodraeth Cymru yn nodi sut byddai'r Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren yn ei chyfanrwydd yn cael ei rhoi ar waith.

**Meysydd anghytundeb**

13.33 Yn gyffredinol, mynegodd ymatebwyr bwyntiau i Lywodraeth Cymru eu hystyried wrth weithredu blaenoriaethau, yn hytrach na mynegi gwrthwynebiad llwyr i'r cynigion. Serch hynny, roedd rhai meysydd o wrthwynebiad penodol y dylid eu hystyried, gan gynnwys a oedd y cynigion yn:

- Creu anfantais i ddeunyddiau a gynhyrchir yn ddomestig fel concrit a sment o blaid pren, gan awgrymu defnyddio dull sy'n niwtral o ran deunyddiau yn lle hynny
- Blaenoriaethu cynhyrchu pren ar draul buddiannau ecolegol, gan ofyn am fwy o ffocws ar yr effeithiau posibl ar fioamrywiaeth
- Creu risg o gael eu dylanwadu gan grwpiau buddiant penodol, yn hytrach nag adlewyrchu sbectrwm ehangach o safbwyntiau'r cyhoedd
- Efallai na chrybwyllwyd nac ystyriwyd rôl bio-olosg yn ddigonol, a phwysigrwydd gwella diwylliant iechyd a diogelwch

13.34 Ar ben hynny, roedd rhywfaint o anghytuno ag iaith, terminoleg neu wybodaeth ategol a ddefnyddiwyd yn yr ymgynghoriad, yn enwedig mewn perthynas â Blaenoriaeth 1. Roedd y rhain yn cynnwys awgrymiadau i ddiffinio 'cynaliadwy' yn well yn ei gyd-destun, sylwadau'n tynnu sylw at dybiaethau rhagdybiedig sy’n sail i ystyriaeth bod pryderon am hirhoedledd pren yn 'ganfyddiad' neu'n 'rhwystr' i'w oresgyn, ac anghytuno ynghylch maint y risg o ran cyfyngiadau difrifol ar y cyflenwad pren yn y dyfodol. Tynnodd rhai sylw hefyd at fylchau a chyfyngiadau posibl yn y data a ddefnyddir yn y deunyddiau ymgynghori.

## Y Camau Nesaf

14. Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a gyflwynodd ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'n galonogol cael ymatebion gan ystod eang o fusnesau, sefydliadau, cyrff cynrychioliadol, sefydliadau aelodaeth ac unigolion ar draws sectorau a'r gadwyn gyflenwi.

    14.1. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r blaenoriaethau a'r cynigion tuag at y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren, gan ystyried yr adborth a ddaeth i law.

    14.2. Bydd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn ystyried y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren gyda'r bwriad o gyhoeddi yn ystod haf 2025. Darperir manylion am gamau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/2026.

    14.3. Bydd y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren a'i chamau gweithredu yn cyflawni yn erbyn strategaeth Coetiroedd i Gymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar gefnogi sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig, gan gefnogi diwydiannau coedwigoedd a phren ffyniannus. Bydd y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren wrth wraidd ein cymorth i'r sectorau coedwigaeth a phren ac yn darparu fframwaith strategol i randdeiliaid.

# Atodiad 1: Ffurflen Ymateb i’r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yw’n berthnasol):

Cyfeiriad e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiynau'r Ymgynghoriad:

1. Cynyddu'r cyflenwad o bren
    I. Sut y gellir cynyddu'r adnodd coedwigaeth cynaliadwy a dyfir yng Nghymru i sicrhau bod mwy o bren a ffibr pren ar gael ar gyfer y dyfodol?
    II. Sut y gellir sicrhau bod mwy o bren a ffibr pren o Gymru yn dod i'r farchnad?
2. Gwneud ein coedwigoedd yn wytnach
    I. Beth y gallwn ei wneud yng Nghymru i leihau'r risgiau y mae'r newid yn yr hinsawdd a phlâu a chlefydau yn eu peri i'n coedwigoedd?
    II. Sut gall tyfwyr a meithrinfeydd roi mesurau addasu ar waith yn gynt?
3. Defnyddio Adnoddau'n fwy Effeithiol a'r Economi Gylchol
    I. Beth gallwn ei wneud yng Nghymru i annog ailddefnyddio ac ailgylchu pren i leihau gwastraff?
    II. Sut y gallai Cymru hyrwyddo arloesedd, i ddylunio a gweithgynhyrchu cynhyrchion pren uwch eu gwerth, hirach eu hoes sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd?
4. Magu hyder yn y galw
    I. Beth gallwn ei wneud yng Nghymru i gynyddu'r defnydd o bren a ffibr pren at ddibenion hirdymor, fel adeiladu?
    II. Sut gallwn ni ddefnyddio pren a ffibr pren o Gymru i gynyddu'r cyfleoedd mewn cadwyni cyflenwi lleol?
    III. Sut gall Cymru alinio’r cyflenwad o bren yn well â'r galw amdano yn y farchnad?
5. Datblygu capasiti'r sector
    I. Pa heriau y mae angen delio â nhw i recriwtio mwy a chadw staff yn ddiwydiannau coedwigaeth a phren Cymru?
    II. Pa fylchau sydd yn yr hyfforddiant a'r ddarpariaeth sgiliau coedwigaeth a phren yng Nghymru?
    III. Pa gymorth sydd ei angen i ddatblygu a mabwysiadu cynhyrchion, prosesau a/neu dechnolegau newydd?

6. Seilir hyn oll ar newid ymddygiad
    I. Beth sydd angen ei wneud i wella dealltwriaeth y cyhoedd o goedwigaeth gynhyrchiol?
    II. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i sefydlu Grŵp Arwain y Diwydiant yng Nghymru? Ydw / Nac ydw
        a. Os ydych, pa gyfraniad y gallai ei wneud o ran rhoi Strategaeth y Diwydiant Pren ar waith?
    III. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i recriwtio Prif Goedwigwr i Gymru? Ydw / Nac ydw
        b. Os ydych, pa werth ychwanegol fyddai'r rôl yn ei gynnig i'r sector coedwigaeth yng Nghymru?

7. Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynigion ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
    I. Yn eich barn chi, a oes cyfleoedd i hybu unrhyw effeithiau cadarnhaol?
    II. Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

8. Yn eich barn chi, a ellid geirio neu newid y cynnig er mwyn:

    - sicrhau effeithiau cadarnhaol neu ragor o effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
    - lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

9. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech wneud sylwadau ar unrhyw faterion perthnasol nad ydynt wedi cael sylw penodol gennym, nodwch nhw yn y gofod a ganlyn. Nodwch nhw yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: